

Rhif Ymchwil Gymdeithasol:

21/2018

Dyddiad cyhoeddi:

19 April 2018

Adolygiad o Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed

ATODIADAU

Adolygiad o

Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Adroddiad Terfynol

Atodiadau

Wulf Livingston¹, Andy Perkins², Trevor McCarthy², Iolo Madoc-Jones¹, Susan Wighton², Fiona Wilson¹ a Donna Nicholas².

¹ Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

² Figure 8 Consultancy Services Cyf

Livingston, W., Perkins, A., McCarthy, T., Madoc-Jones, I., Wighton, S., Wilson, F. & Nicholas, D. (2018). *Adolygiad o Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Adroddiad Terfynol Atodiadau*

Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Adroddiad GSR rhif 21/2018

Ar gael ar: <http://gov.wales/statistics-and-research/review-working-together-reduce-harm/?lang=cy>



Safbwyntiau'r ymchwilyr, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru, yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Janine Hale

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6539

E-bost: janine.hale@llyw.cymru

Tabl cynnwys

<u>Rhestr o dablau</u>	2
<u>1. Atodiad A – Ymgynghori â Rhanddeiliaid</u>	3
<u>2. Atodiad B – Llinell Amser Gymharol</u>	16
<u>3. Atodiad C – Modelau Rhesymeg Tybiedig</u>	23
<u>4. Atodiad D – Adroddiadau Alcohol Concern Cymru (Papurau Ymchwil a Briffio)</u>	36
<u>5. Atodiad E – Ffynonellau tystiolaeth penodol i Gymru</u>	43
<u>6. Atodiad F – Crynodeb o'r Arolwg Llenyddiaeth</u>	52
<u>7. Atodiad G – Bylchau mewn Data</u>	106
<u>8. Atodiad H – Trafodaeth Academaidd ar Ddylanwadau Polisi</u>	111

Rhestr o dablau

<u>Tabl A1.1: Gweithdai Ymgynghori – yn ôl gwahoddiadau, presenoldeb a nodiadau a ddadansoddwyd</u>	4
<u>Tabl A1.2: Gweithdai Ymgynghori – themâu a ddadansoddwyd a negeseuon cyson gan randdeiliaid</u>	7
<u>Tabl A2.1: Llinell Amser Gymharol</u>	16
<u>Ffigur A3.1: Model polisi</u>	24
<u>Tabl A3.2: Enghreifftiau o ystyriaethau eraill</u>	25
<u>Ffigur A3.3: Model Rhesymeg Craidd Tybiedig y Strategaeth – 2008</u>	27
<u>Ffigur A3.4: Model Rhesymeg Maes Gweithredu Tybiedig 1 (Atal Niwed) – 2008</u>	29
<u>Ffigur A3.5: Model Rhesymeg Maes Gweithredu Tybiedig 2 (Cynorthwyo Camddefnyddwyr Sylweddau) – 2008</u>	30
<u>Ffigur A3.6: Model Rhesymeg Maes Gweithredu Tybiedig 3 (Cynorthwyo ac Amddiffyn Teuluoedd) – 2008</u>	31
<u>Ffigur A3.7: Model Rhesymeg Maes Gweithredu Tybiedig 4 (Delio ag Argaeledd drwy Gamau Gorfodi) – 2008</u>	32
<u>Ffigur A3.8: Dehongliad o'r model rhesymeg presennol (hybrid)</u>	34
<u>Ffigur A3.9: Y Meysydd Llesiant Presennol</u>	35
<u>Tabl A4.1: Crynodeb o Adroddiadau Alcohol Concern Cymru (2010-2016) a sylwadau arnynt</u>	36
<u>Tabl A5.1: Data triniaethau – Adroddiadau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru</u>	43
<u>Tabl A5.2: Proffil Blynyddol Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru</u>	44
<u>Tabl A5.3: Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed – Adroddiadau Blynyddol Camddefnyddio Sylweddau</u>	44
<u>Tabl A5.4: Fframweithiau a Chanllawiau Triniaeth</u>	48
<u>Tabl A5.5: Cynlluniau Cyflawni a Gweithredu</u>	51
<u>Tabl A6.1: Dosbarthu a chrynhof'r prif negeseuon o'r llenyddiaeth</u>	52
<u>Tabl A6.2: Crynodeb o'r prif ffynonellau tystiolaeth – yn ôl thema</u>	64
<u>Tabl A6.3: Crynodeb o Adolygiadau Systematig ar Alcohol a Chyffuriau</u>	89

1. Atodiad A – Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Elfen hanfodol yn y fethodoleg Dadansoddi Cyfraniad oedd ymgynghori ag ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid er mwyn rhoi prawf ar y Ddamcaniaeth Newid, yn ogystal â chasglu tystiolaeth ansoddol werthfawr i ategu'r stori perfformiad. Roedd y brif fethodoleg ar gyfer yr ymgynghoriad hwn wedi'i rhagnodi gan Lywodraeth Cymru am mai hi oedd yn hwyluso'r gyfres o weithdai ledled Cymru. Roedd tîm yr adolygiad wedi ychwanegu nifer bach o gyfweiliadau â hysbyswyr allweddol at hyn, yn ogystal ag arolwg ar-lein (ansoddol) i gasglu tystiolaeth ychwanegol a chymharol. Mae manylion y dulliau hyn, a'r themâu allweddol a gododd, wedi'u dangos isod.

Gweithdai Rhanddeiliaid

Drwy gydweithio â'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) roeddem wedi darparu ar gyfer cynnal naw gweithdy ledled y wlad (dau ar gyfer Gogledd Cymru¹, un bob un ar gyfer y chwe ardal arall ac un gweithdy ar-lein drwy'r Gymraeg²). Defnyddiwyd dull samplu wedi'i dargedu drwy wahodd nifer mor amrywiol a chynhwysol â phosibl o gyfranogwyr i gymryd rhan. O ganlyniad i hyn, anfonwyd 272 o wahoddiadau ac roedd 117³ o unigolion wedi cymryd rhan.

¹ Roedd y BCA ar gyfer Gogledd Cymru wedi nodi bod angen cynnal dau weithdy yn nau ben yr ardal, yn hytrach nag un canolog, gan ei bod yn debygol y byddai'r rhain yn sicrhau'r presenoldeb gorau.

² Dim ond un unigolyn a ofynnodd am gael cymryd rhan yn y gweithdy hwn, felly cafodd ei gynnal ar ffurf cyfweiliad yn hytrach na gweithdy.

³ 118 yn cynnwys yr un cyfweiliad Cymraeg.

Tabl A1.1: Gweithdai Ymgynghori – yn ôl gwahoddiadau, presenoldeb a nodiadau a ddadansoddwyd

BCA	Lleoliad	Gwahodd- wyd	Yn bresennol	Nifer y grwpiau bach	Nifer y nodiadau ymchwilydd a ddadansoddwyd	Nifer y nodiadau cyfranogwr a ddadansoddwyd
Gogledd Cymru	Bangor	18	21	3	3	18
Gogledd Cymru	Wrecsam	28	20	3	3	13
Powys	Llandrindod	25	10	2	4	4
Bae'r Gorllewin	Port Talbot	42	12	2	2	7
Dyfed	Caerfyrddin	43	19	3	3	11
Cwm Taf	Aberpennar	34	18	2	4	8
Gwent	Casnewydd	46	6	1	2	3
Caerdydd a'r Fro	Caerdydd	36	11	2	4	4
CYFANSYMAU		272	117	18	25	68

Prosesu a dadansoddi

Mae crynodeb isod o'r broses o drefnu a dadansoddi'r dystiolaeth o'r gweithdai:

- Fel y gwelir yn y tabl uchod, anfonwyd 272 o wahoddiadau ac roedd 117⁴ o unigolion yn bresennol (ceir y manylion isod).
- Rhannwyd pob gweithdy yn grwpiau a oedd yn ddigon bach (6-10 o unigolion) i ganiatáu cyfranogi, ac roedd pob grŵp wedi'i hwyluso gan o leiaf un aelod o'r tîm gwerthuso a ddefnyddiodd yr un deialog strwythuredig (gweler isod).
- Y canlyniad terfynol i hyn oedd bod 18 o sgysiau wedi'u cynnal mewn grwpiau bach. Cofnodwyd y rhain â llaw gan un neu ddau o ymchwilyr (cyfanswm o 25 o setiau o nodiadau ymchwilydd) ac fe'u hategwyd gan nodiadau ychwanegol yr oedd cyfranogwyr wedi'u hannog i'w gwneud yn ystod y gweithdy (cyfanswm o 68).
- Wedyn cafodd yr holl nodiadau cynhwysfawr a wnaed gan ymchwilyr a chyfranogwyr eu trawsgrifio'n llawn (ar ffurf teipysgrif) a'u hailwirio wedyn am gywirdeb ac eglurder.

Deialog Strwythuredig

Ar ddechrau pob gweithdy, darparwyd trosolwg a chyflwyniad byr gan arweinydd tîm yr adolygiad. Roedd hyn yn darparu cyd-destun a dealltwriaeth i gyfranogwyr ynghylch natur yr adolygiad a phwmpas y gweithdai.

Rhannwyd y cyfranogwyr yn grwpiau trafod bach gydag o leiaf un aelod o dîm yr adolygiad yn hwyluso pob grŵp. Darparwyd taflen gwestiynau i bob cyfranogydd gyda lle arni i ysgrifennu ei syniadau ei hun, ac fe'u hanogwyd i helpu'r adolygiad drwy ysgrifennu pethau yn eu geiriau eu hunain lle'r oedd modd. Roedd hwylusydd y grŵp hefyd wedi gwneud nodiadau am y trafodaethau.

Rhannwyd y gweithdy yn ddwy sesiwn, pob un tua un awr o hyd a phob grŵp yn cael tri chwestiwn allweddol i'w trafod yn y ddwy sesiwn (chwech i gyd). Ar ddiwedd trafodaethau'r grwpiau bach, roedd arweinydd tîm yr adolygiad yn

⁴ 118 yn cynnwys un cyfweliad Cymraeg.

llywio trafodaeth mewn grŵp mawr lle gofynnwyd i gyfranogwyr fyfyrion ar y sgwrs gyfan, a nodi'r negeseuon pwysicaf a oedd wedi codi yn y gweithdy.

Y chwe chwestiwn a ofynnwyd i bob grŵp oedd:

1. Pa newidiadau rydych chi wedi'u gweld neu eu profi o ganlyniad uniongyrchol/anuniongyrchol i'r strategaeth?
2. Beth oedd cyfraniad cyffredinol y strategaeth ar lefel genedlaethol a lefel leol?
3. Sut rydych chi'n gwybod a yw'r strategaeth wedi gweithio neu beidio?
4. Beth arall fydddech chi wedi hoffi ei weld neu ei brofi o ganlyniad uniongyrchol/anuniongyrchol i'r strategaeth?
5. Pa ffactorau allanol sydd wedi dylanwadu ar gyflawniad/effaith y strategaeth?
6. Pa ystyriaethau y dylid rhoi sylw iddynt yn y dyfodol ar gyfer camau nesaf y strategaeth?

Dadansoddiad

Roedd yr holl nodiadau (gan hwyluswyr tîm yr adolygiad a'r cyfranogwyr) wedi'u teipio ar ôl pob digwyddiad. Anfonwyd y nodiadau wedyn at bob un o'r ymchwilwyr i'w gwirio. Wedyn dadansoddwyd y nodiadau'n systematig gan un aelod o'r tîm ymchwil er mwyn sicrhau cysondeb, a darparwyd gwiriad sicrhau ansawdd eilaidd gan aelod arall o dîm yr adolygiad.

Rhannwyd yr ymatebion ar sail themâu ac mae negeseuon cyson wedi'u nodi yn y tabl isod. Y diffiniad o neges gyson oedd un a oedd wedi'i chrybwyll mewn o leiaf bum grŵp gwahanol (allan o 18) mewn o leiaf dri gweithdy gwahanol (allan o saith⁵).

⁵ At ddibenion y dadansoddiad, mae'r ymatebion o'r ddau weithdy ar gyfer BCA Gogledd Cymru wedi'u cyfuno, fel nad oedd yr ymatebion o Ogledd Cymru yn cael dylanwad anghymesur gan mai dim ond un gweithdy a oedd wedi'i gynnal yn ardaloedd yr holl BCAau eraill.

Tabl A1.2: Gweithdai Ymgynghori – themâu a ddadansoddwyd a negeseuon cyson gan randdeiliaid

CWESTIWN 1: Pa newidiadau rydych chi wedi'u gweld neu eu profi o ganlyniad uniongyrchol/anuniongyrchol i'r strategaeth?	
Thema	Negeseuon cyson^{6,7}
Y Sector Camddefnyddio Sylweddau	Mae gwasanaethau'n gweithio'n well ar y cyfan ac mae staff yn canolbwyntio'n well. [6]
Ariannu	Mae hyfywedd ariannol y gwasanaethau'n ansicr oherwydd cyni ariannol. [5]
Sylweddau – tueddiadau	- Mae sylweddau'n mynd yn gryfach. [5] - Mwy o bwyslais ar roi gwybod bod alcohol yn fwy niweidiol na chyffuriau. [5]
Opsiynau Triniaeth	- Dull mwy teilwredig/personol o weithredu gan wasanaethau (e.e. troi oddi wrth sgriptio yn unig, canolbwyntio'n fwy ar iechyd meddwl, etc.). [5] - Diffyg opsiynau o hyd ar gyfer y rheini sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn cyd-ddigwydd. [6] - Ehangu opsiynau Lleihau Niwed (i gynnwys mwy na methadon a nodwyddau glân yn unig). Mae cyflwyno'r rhaglen nalocson yn enghraifft dda, gan ei bod wedi arwain at roi sylw helaeth iawn i atal marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau. [6]
Poblogaethau triniaeth	Nid yw gwasanaethau wedi'u paratoi'n dda i ddelio â dyfodiad sylweddau seicoweithredol newydd (yn enwedig mewn carchardai). [5]
Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau	Cafwyd mwy o weithgarwch i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a mwy o werthfawrogiad o fewnbwn defnyddwyr gwasanaethau. [7]
Ymadfer	Ehangu'r agenda/model ymadfer, yn cynnwys camau i fabwysiadu gofal drwy'r broses a mwy o ofal camu ymlaen/ôl-ofal (sy'n gweithio'n dda - e.e. mentora cymheiriaid). [8]

⁶ Y rhifau rhwng cromfachau yw'r nifer o weithiau roedd y neges wedi'i nodi yn y gwahanol grwpiau gweithdy.

⁷ Yn ogystal â'r negeseuon a nodwyd sydd wedi'u rhestru yn y tabl, roedd y tîm ymchwil wedi nodi neges gyson ychwanegol yn ymwneud â 'chynnydd sylweddol mewn problemau tai' (mewn pum grŵp gweithdy). Fodd bynnag, ni ellir pennu bod hyn yn ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r Strategaeth.

Teuluoedd	• Ychydig sydd wedi newid mewn perthynas â chynorthwyo teuluoedd.⁸ [5]
Gweithio amlasiantaeth / mewn partneriaeth	• Mwy o bwyslais ar weithio amlasiantaeth. Gwell cydweithio rhwng y sector statudol a'r trydydd sector. [7] • Mwy o weithio mewn partneriaeth o'r lefel leol i fyny. [5]

CWESTIWN 2: Beth oedd cyfraniad cyffredinol y strategaeth ar lefel genedlaethol a lefel leol?⁹

Thema	Negeseuon cyson
Lleihau niwed	• Mae teimlad gwirioneddol bod y Strategaeth wedi cyflawni ei hamcan – h.y. ei bod wedi cyfrannu at leihau'r mathau o niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. [10] • Mae hyrwyddo a datblygu cymorth ac ymyriadau mewn perthynas â feirysau a gludir yn y gwaed yn cael ei weld gan lawer yn un o gyfraniadau mawr y Strategaeth. [8] • Un arall o gyfraniadau (uniongyrchol ac anuniongyrchol) y Strategaeth a oedd wedi'i gydnabod gan lawer yw cyflwyno'r rhaglen nalocson, gan fod rhanddeiliaid yn teimlo na fyddai wedi bod yn sicr o gael ei sefydlu oni bai am y Strategaeth. [8]
Yr agenda ar ymadfer	• Roedd cydnabyddiaeth bod yr agenda ar ymadfer wedi datblygu'n sylweddol dros gyfnod y Strategaeth (yn enwedig yn y blynyddoedd diwethaf), ac roedd y mwyafrif yn cydnabod bod y Strategaeth wedi bod yn gefnogol i hyn. [9] • Teimlir yn gyffredinol fod y Strategaeth wedi hybu'r datblygiadau sylweddol a gafwyd ledled Cymru o ran y pwysigrwydd o wrando ar brofiadau personol ar bob lefel yn y system trin ac ymadfer. Yn wir, nodwyd na fyddai'r gweithdai ymgynghori hyn wedi clywed am y gwahanol brofiadau personol hyn ar ddechrau cyfnod y Strategaeth. [6]

⁸ Er hynny, roedd rhai ardaloedd/grwpiau wedi nodi bod gwelliannau sylweddol wedi bod mewn cymorth i deuluoedd, gan ddangos bod anghysondeb yn y datblygiadau i gynorthwyo teuluoedd ledled Cymru.

⁹ Roedd cyfran sylweddol o'r sgysiau ar y cwestiwn hwn yn ymwneud â'r hyn nad yw'r strategaeth wedi gallu ei wneud. Mae'r elfen hon o'r adborth wedi'i hychwanegu at y dadansoddiad o'r ymateb i Gwestiwn 4.

	• Rhoddwyd mwy o lawer o sylw i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a hyrwyddo mentora gan gymheiriaid ledled Cymru. [5]
Newid diwylliant	• Nodwyd sgysiau mynych yn y gweithdai am newid mewn diwylliant ar draws y sector, a soniwyd yn benodol am newid pendant yng nghyfeiriad meddwl yr Heddlu. [5] • Cytunwyd bod y ddarpariaeth o wasanaethau wedi datblygu mewn modd cadarnhaol dros gyfnod y Strategaeth, a hynny wedi'i gyfleu'n bennaf gan y canfyddiad bod gwasanaethau'n ymwneud â mwy na dim ond rhannu presgripsiynau erbyn hyn. [7] • Nodwyd mai un o brif lwyddiannau'r Strategaeth yw'r cynnydd yn nifer y dulliau amlasiantaeth a bod hyn wedi meithrin mwy o hyder yn gyffredinol ymysg darparwyr a chomisiynwyr. [8] • Nodwyd mai'r Strategaeth sy'n bennaf cyfrifol am hybu gwelliannau sylweddol yn y ffordd y mae unigolion/asiantaethau yn gweithio, er bod hanfodion y broblem heb newid. [8]
Dylanwad Llywodraeth	• Nodwyd yn gyson fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddylanwad amlwg wrth roi'r Strategaeth ar waith ar lefel leol, a bod lefel uchel o graffu yn cyd-fynd â hynny. Croesawyd hyn ar y cyfan (yn bennaf am fod angen cynnwys 'lechyd' ochr yn ochr â phartneriaid eraill), er bod nifer sylweddol wedi awgrymu y dylid cadw lefel y craffu fel y mae yn awr. [9]
Data	• O ganlyniad i welliannau/ehangu systemau casglu data, cafwyd darlun cliriach o anghenion y rheini sy'n camddefnyddio sylweddau ledled Cymru. [5]
Ariannu	• Mae clustnodi cyllid wedi gwneud gwahaniaeth mawr ar draws y sector. [6]

CWESTIWN 3: Sut rydych chi'n gwybod a yw'r strategaeth wedi gweithio neu beidio?

Thema	Negeseuon cyson
Gwelliannau mewn gweithio amlasiantaeth	• Mae'r gwelliannau cydnabyddedig mewn gweithio amlasiantaeth yn cael eu gweld yn arwydd cadarnhaol bod y Strategaeth yn gweithio/wedi gweithio. [7]
Presenoldeb	• Mae'r cynnydd mawr yn y presenoldeb mewn grwpiau

mewn grwpiau ymadfer	ymadfer ac mewn cyfarfodydd (drwy'r flwyddyn) yn cael ei weld yn arwydd cadarnhaol arall. [5]
Cynnydd yn y nifer sy'n derbyn triniaeth Hepatitis C	Mae'r cynnydd mawr yn niferoedd yr unigolion sy'n derbyn triniaeth Hepatitis C yn arwydd cadarnhaol bod y Strategaeth yn helpu i leihau niwed. [7]
Llais y defnyddiwr	Mae llais unigolion sydd â phrofiad personol yn cael mwy o sylw wrth i amser fynd heibio – mae hyn yn cael ei weld yn arwydd cadarnhaol ar ei ben ei hun fod y Strategaeth yn gweithio. [8]

CWESTIWN 4: Beth arall fydddech chi wedi hoffi ei weld neu ei brofi o ganlyniad uniongyrchol/anuniongyrchol i'r strategaeth?

Thema	Negeseuon cyson
Rhannu gwybodaeth yn well	Cytunir yn gyffredinol fod lle mawr i wella'r rhannu ar wybodaeth o fewn a rhwng gwasanaethau/ asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth, ac nad yw'r Strategaeth wedi cael effaith o bwys yn y maes hwn. [9]
Un pwynt mynediad	Datblygu un pwynt mynediad ym mhob ardal ar gyfer gwasanaethau a chymorth ar gyfer chamddefnyddio sylweddau. [5]
Gwelliannau i'r rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau	Mae teimlad cyffredinol nad oedd y Strategaeth wedi canolbwyntio'n ddigonol ar y boblogaeth hon ac felly nad yw gwelliannau wedi'u sicrhau. Mae cydnabyddiaeth bod unigolion (yn aml) yn dal i gael eu gyrru'n ôl a blaen rhwng gwasanaethau, fel sydd wedi digwydd erioed. [8]
Mwy o gymorth i deuluoedd a gofalwyr	Mae amheuon ymysg nifer o wahanol randdeiliaid ynghylch a yw teuluoedd a gofalwyr wedi cael digon o sylw a gwasanaethau yn ystod cyfnod y Strategaeth. [6]
Mabwysiadu monitro ar sail canlyniadau	Mae mesur canlyniadau 'gwirioneddol' yn cael ei weld yn her fawr nad yw'r Strategaeth wedi gwneud llawer i'w hateb. [8]
Ystafelloedd defnyddio	Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn credu bod datblygu ystafelloedd defnyddio yn ffordd resymegol a synhwyrol i helpu i leihau'r mathau o niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. [7]

Mwy o gyfraniad gan gynrychiolwyr gwasanaethau tai	Mae tai yn cael ei weld yn ffactor mor gritigol fel bod angen ymgysylltu'n well o lawer â chynrychiolwyr gwasanaethau tai mewn perthynas â thrafodaethau/penderfyniadau ynghylch camddefnyddio sylweddau. [8]
CWESTIWN 5: Pa ffactorau allanol sydd wedi dylanwadu ar gyflawniad/effaith y strategaeth?	
Thema	Negeseuon cyson
Diffyg ymwneud gan wasanaethau iechyd meddwl	Er ei bod yn cael ei dderbyn bod y diffyg ymwneud yn arwydd yn aml o'r pwysau mawr sydd ar wasanaethau iechyd meddwl. [6]
Problemau tai	Mae gormod o bobl yn ddigartref neu wedi'u dal mewn cylch negyddol mewn perthynas â'u sefyllfa o ran tai ac mae hyn yn cael effaith fawr o ran rhwystro unigolion rhag camu ymlaen wrth ymadfer. [7]
Monitro allbynnau/canlyniadau	Mae canfyddiad bod asiantaethau'n aml yn cadw defnyddwyr gwasanaethau at ddibenion biwrocraidaidd yn hytrach na sicrhau canlyniadau cadarnhaol. [8]
Toriadau ariannol a dibyniaeth ar arian Ewrop	Mae hyn yn cael ei weld yn ffactor allanol amlwg sydd wedi cael yr effaith uniongyrchol fwyaf ar allu'r Strategaeth i gyflawni ei nodau. [10]
Newid deddfwriaeth ac effeithiau datganoli	- Mae'r cyd-destun deddfwriaethol, sydd i'w weld yn newid drwy'r amser (yn enwedig o ganlyniad i ddatganoli) yn cael, ac wedi cael, effaith fawr ar allu'r Strategaeth i gyflawni ei hamcanion yn llwyr. [5] - Mae'n bosibl y bydd newidiadau mewn deddfwriaeth yn atal Llywodraeth Cymru rhag cyflwyno Isafbris Uned am Alcohol, sy'n cael ei weld yn rhywbeth mawr ei angen¹⁰. [6] - Nid yw'r Ddeddf Trwyddedu wedi helpu i ddelio â lefelau defnyddio, ac mae alcohol ar gael yn fwy eang hyd yn oed nag yr oedd ar ddechrau cyfnod y Strategaeth. [5]

¹⁰ Ers ysgrifennu'r adroddiad hwn, cafwyd cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r Isafbris Uned. Yn gyntaf, cyflwynwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) ac mae'n mynd drwy broses craffu'r Cynulliad ar hyn o bryd; ac, yn ail, mae'r Isafbris Uned yn yr Alban bellach wedi trechu'r holl heriau cyfreithiol ac mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi y bydd yn dod i rym ar 1 Mai 2018.

CWESTIWN 6: Pa ystyriaethau y dylid rhoi sylw iddynt yn y dyfodol ar gyfer camau nesaf y strategaeth?

Thema	Negeseuon cyson
Atal	Mae'r Strategaeth bresennol yn canolbwyntio'n fwy ar unigolion sydd eisoes yn defnyddio sylweddau, yn hytrach nag atal. Roedd llawer o blaid newid y cydbwysedd hwn mewn unrhyw strategaeth yn y dyfodol. [8]
Integreiddio Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl	Dylai anghenion y rheini sy'n camddefnyddio sylweddau ac yn profi problemau iechyd meddwl yr un pryd fod yn brif flaenoriaeth ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, gan fod canfyddiad na chafwyd nemor ddim cynnydd yn ystod cyfnod y Strategaeth bresennol. [7]
Datblygu rhagor o opsiynau ar gyfer Ymadfer / Cynorthwyo Cymheiriaid / Cynnwys Defnyddwyr	- Elwa o brofiadau'r rheini yng Ngogledd Cymru o adeiladu cymunedau ymadfer preswyl (Tai Ymadfer) yn hytrach na chanolfannau ymadfer traddodiadol. [5] - Credir bod buddsoddi'n bwysig er mwyn parhau i gynnig opsiynau cymorth gan gymheiriaid ledled Cymru yn y dyfodol ac i gynnal eu gallu. [7]
Gwerthuso canlyniadau	Cafwyd trafodaeth eang a chytundeb y dylai unrhyw strategaeth yn y dyfodol ganolbwyntio ar ganlyniadau tymor hir (a sut i'w mesur). [8]

Cyfweliadau â Hysbyswyr Allweddol ar Lefel Genedlaethol

Nodwyd ar ddechrau'r broses y byddai cynnal gweithdai ar sail ardaloedd y BCAu yn arwain at fethu â chynnwys nifer o gyfranogwyr allweddol (ar lefel genedlaethol), na fyddai'n hwylus iddynt gymryd rhan yng ngweithdai'r ardaloedd lleol. Penderfynwyd cynnal tri chyfweliad ffôn o'r fath (ar sail sampl bwrpasol) ag unigolion a oedd yn gallu cynnig barn benodol oherwydd pwysigrwydd ac arbenigedd eu rôl (h.y mae pob un ohonynt yn cyflawni rôl genedlaethol yn hytrach na rôl ar lefel y BCAu).

Cynhaliwyd y cyfweliadau â'r canlynol:

- Uwch-swyddog yn Llywodraeth Cymru a oedd yn rhannol gyfrifol am ddatblygu Strategaeth 2008 ac sy'n cadw trosolwg ar faterion

sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn Llywodraeth Cymru heddiw.

- Cyfarwyddwr Alcohol Concern Cymru¹¹.
- Cadeirydd Mudiad Defnyddwyr Gwasanaethau Cymru Gyfan (AWSUM)¹².

Dewiswyd yr unigolion hyn am nad ydynt yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd unrhyw un o'r BCAau, ac nad oeddent felly wedi cymryd rhan yng ngweithdai'r BCAau.

Roedd pob cyfweiliad wedi'i gynllunio'n benodol i ganolbwyntio ar weithgareddau allweddol a dylanwad rôl y rhai a gyfwelwyd yn ystod cyfnod y Strategaeth.

Gwnaed recordiad sain o'r holl gyfweiliadau er mwyn cofnodi cymhlethdod y deialog. Cawsant eu trawsgrifio'n llawn wedyn a'u dadansoddi ar sail themâu yn yr un ffordd ag y dadansoddwyd y data o'r gweithdai (gweler uchod).

Mae'r dadansoddiad o'r cyfweiliadau wedi'i ddisgrifio ac wedi cyfrannu i'r stori perfformiad gyffredinol sydd yn y prif adroddiad.

Arolwg Ar-lein

Roedd cydnabyddiaeth wrth drefnu'r gweithdai i BCAau nad oedd cryn nifer o'r rheini a wahoddwyd yn gallu bod yn bresennol. Derbyniwyd hefyd, wrth gynnal y gweithdai, nad oedd digon o amser ar gael yn y trafodaethau grŵp ar gyfer y cyfraniad yr oedd rhai unigolion am ei wneud. Felly penderfynwyd cynllunio a dosbarthu arolwg ar-lein i roi cyfle ychwanegol i gasglu barn, a hefyd i gael cyfle i gymharu data o'r gweithdai â set ehangach o safbwyntiau er mwyn gwirio cywirdeb.

¹¹ 'Alcohol Concern has been working closely with the Welsh Government since 2009 to help people in Wales to have a healthy relationship with alcohol. They undertake research into how alcohol is marketed, sold and consumed, and make evidence-based proposals for change. They challenge people to think about their own drinking habits, and challenge the alcohol industry about its tactics to get us drinking more. Their aim is a Wales in which alcohol does no harm – in which adults can enjoy alcohol (or choose not to) without causing problems for themselves or others.' (<https://www.alcoholconcern.org.uk/Pages/Category/alcohol-concern-cymru>).

¹² 'The All Wales Service User Movement (AWSUM) is: a national movement for service users; a direct link between service users and Welsh Government; a group of people that empower service users to help shape substance misuse policy; and an independent voice to create a better Wales for people with substance misuse issues.' (<http://awsum.wales/>).

Cafodd holiadur syml o bedwar cwestiwn ei gynllunio a'i ddosbarthu (drwy rwydweithiau'r BCAau) ar ganol Ebrill 2017 ac roedd ar gael i'w lenwi dros gyfnod o bedair wythnos.

Roedd y cwestiynau hyn wedi'u seilio ar y cwestiynau allweddol yn y gweithdai ac wedi'u cyfuno i wneud pedwar cwestiwn yn lle chwech er mwyn ei gwneud yn haws i gynulleidfa ehangach ddefnyddio'r holiadur a'i lenwi.

Roedd y cwestiynau wedi'u llunio ar ffurf benagored yn fwriadol er mwyn caniatáu i'r rheini a oedd yn llenwi'r holiadur rannu barn a fyddai'n ychwanegu at sylwedd y stori perfformiad a oedd yn datblygu.

Cwestiynau'r arolwg

Y pedwar cwestiwn a ofynnwyd yn yr arolwg oedd:

1. Pa newidiadau rydych chi wedi'u gweld neu eu profi rhwng dechrau cyfnod y strategaeth yn 2008 a'r presennol?
2. Beth arall fydddech chi wedi hoffi ei weld neu ei brofi?
3. Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei gymryd i ystyriaeth ar gyfer unrhyw strategaeth yn y dyfodol?
4. Sut y dylid mesur llwyddiant (perfformiad neu ganlyniadau) yn y dyfodol?

Dadansoddiad

Casglwyd cyfanswm o 34 o ymatebion ac roedd pob un ohonynt yn addas i'w ddadansoddi.

Rhoddwyd y data ar bwrpas i aelod o'r tîm ymchwil nad oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio neu ddarparu'r gweithdai ar gyfer BCAau, er mwyn osgoi tuedd wrth ddynodi themâu neu negeseuon allweddol. Y nod oedd asesu a oedd unrhyw themâu pwysig eraill ar gyfer y stori perfformiad a oedd heb eu nodi yn y gweithdai.

Nid oedd y dadansoddiad wedi dangos unrhyw themâu pwysig eraill a phrin oedd y cysondeb rhwng yr atebion a roddwyd yn y 34 o ymatebion.

Er nad yw'r canfyddiadau o'r arolwg yn groes i'r canfyddiadau o'r gweithdai, ni welwyd unrhyw themâu yn dod i'r amlwg yn yr ymatebion i'r arolwg yn gyffredinol – yn hytrach, roedd nifer o grwpiau gwahanol o ddatganiadau

cydlynol a mwy niferus. Mae'r ymatebion yn ymddangos fel set o negeseuon sy'n cystadlu â'i gilydd yn hytrach nag ategu ei gilydd, sy'n cyfleu safbwyntiau personol yn hytrach na chonsensws. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r dadansoddiad o'r gweithdai, sydd yn fwy cyson.

2. Atodiad B – Llinell Amser Gymharol

Er mwyn ein helpu i ddatblygu'r stori perfformiad dros gyfnod y Strategaeth, lluniwyd llinell amser gymharol gan y tîm ymchwil sydd wedi'i dangos isod.

Tabl A2.1: Llinell Amser Gymharol

Dyddiad	Datganoli, Etholiadau a Digwyddiadau Allanol ¹³	Dogfennau Cyfraith, Polisi a Strategaeth ar Alcohol a Chyffuriau Cymru (Lloegr, yr Alban a'r DU) ¹⁴¹⁵	Gweithgarwch Polisi Allweddol (Cymru'n unig) ¹⁶	Sylwadau
Cyn 2000	1979 Y refferendwm cyntaf ar ddatganoli yng Nghymru; ei wrthod. 1997 Yr ail	1973 Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1996 Ymlaen Gyda'n Gilydd:	1999 Diddymu Pwyllgor Cynghori Cymru ar Ddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol (WACDAM) a sefydlu Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau dros dro	Mae'r fframwaith presennol ar gyfer 'cyffuriau anghyfreithlon' yn 44 blwydd oed bellach. Mae wedi bod yn destun adolygiad bach yn hytrach nag un

¹³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) *Hanes Datganoli yng Nghymru* <http://www.assembly.wales/cy/abthome/role-of-assembly-how-it-works/Pages/history-welsh-devolution.aspx>

¹⁴ Transform (2017) <http://www.tdpf.org.uk/resources/drug-policy-timeline>

¹⁵ Dropwise (2016) What are the UK Drug Laws <http://www.dropwise.org.uk/wp-content/uploads/druglinktimeline-1.pdf>

¹⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Substance Misuse: Key Structural and Policy Developments* SJR-12-04(p.1) ANNEX 1

[illegible]

	refferendwm ar ddatganoli yng Nghymru; llwyddiannus 1997 Etholiadau'r DU – Llafur (Tony Blair) yn dod â 18 mlynedd o lywodraeth gan y Ceidwadwyr i ben 1998 Deddf Llywodraeth Cymru; y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei ffurfio 1999 Etholiadau cyntaf y Cynulliad; ethol Llywodraeth Lafur leiafrifol – clymblaid â'r Democratiaid Rhyddfrydol	Strategaeth i Fynd i'r Afael â Chamddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru 1998 Tackling drugs to build a better Britain (Y Swyddfa Gartref) 1998 Deddf Trosedd ac Anhrefn (Cyflwyno Gorchmynion Profi am Gyffuriau)		cynhwysfawr, ac mae'n cael ei feirniadu'n gyson am beidio ag adlewyrchu'n gywir y mathau o niwed sy'n cael eu hachosi gan wahanol gyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon¹⁷. (Mae gwahanol gyffuriau wedi'u hychwanegu neu eu dosbarth wedi'i newid dros y blynyddoedd). Mae Cymru yn ymdrin ag alcohol a chyffuriau drwy strategaeth gydgyssylltiedig er 1996; mae hyn yn wahanol i'r dull o'u trin ar wahân yn Lloegr a'r Alban. 1998 Mae strategaeth gyffuriau San Steffan yn cyfeirio at Brydain, ond mae polisi'n cael ei ddatganoli.
2000-2008	2001 Etholiadau'r DU; ailethol Llafur a Tony	2000 Delio â chamddefnyddio	2001 Sefydlu'r Panel Cyngori ar Gamddefnyddio Sylweddau (PCGS)	Materion iechyd a lles cymdeithasol yn cael eu

¹⁷ Nutt, D.J; King, L.A a Phillips, L.D. (2010) Drug harms in the UK: a multicriteria decision analysis *Lancet* 376 (9752):1558–1565, 6

Blair 2002 Mabwysiadu'r term Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003 Ail etholiadau'r Cynulliad; Llafur yn ennill 50% o'r seddau ac yn ffurfio llywodraeth 2005 Etholiadau'r DU; ethol Llafur a Tony Blair am y trydydd tro 2006 Ail Ddeddf Llywodraeth Cymru – gwahanu pwerau'n ffurfiol rhwng y Ddeddfwrfa (y Cynulliad Cenedlaethol) a'r Weithrediaeth (Llywodraeth Cymru). (Pwerau i wneud Cyfreithiau mewn meysydd penodedig)	sylweddau yng Nghymru: Y dull partneriaeth 2003 Hidden Harm: Responding to the needs of the children of problem drug users (ACMD) 2004 Alcohol harm reduction strategy for England 2007 Safe, Sensible, Social: The next steps in the national alcohol strategy (Lloegr)	2003 Diddymu Timau Gweithredu ar Gyffuriau ac Alcohol a Thimau Gweithredu Lleol a sefydlu Timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau yn eu lle (22 – wedi'u seilio ar ffiniau cyffredin y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol) 2003 Sefydlu Timau Cyngori Rhanbarthol ar Gamddefnyddio Sylweddau 2003 – Adolygiad o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2002/03, Adroddiad Terfynol 2004-5 Sefydlu Fframweithiau Trin Camddefnyddio Sylweddau (Ychwanegu fframweithiau'n ddiweddarach)	datganoli, wrth lunio strategaeth. 2000 – Cymru'n cyfuno ei dull o ddelio â'r holl gyffuriau mewn un ddogfen bolisi
--	--	--	--

	2007 Trydydd etholiadau'r Cynulliad; Ffurio clymblaid 'Cymru'n Un' rhwng Llafur a Plaid.			
2008-2013	2009 - Ad-drefnu'r GIG yng Nghymru (Sefydlu 7 BILI a 3 Ymddiriedolaeth GIG) 2009 Sefydlu Monitoring and Evaluating Scotland's Alcohol Strategy (MESAS) 2010 Etholiadau'r DU; Y Ceidwadwyr yn ffurfio clymblaid â'r Democratiaid Rhyddfrydol o dan David Cameron 2010 Y Swyddfa Gartref yn torri cyllid ar gyfer y Rhaglen Ymyriadau	2008 Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau i Gymru 2008-2018 2008 The road to recovery: A new approach to tackling Scotland's drug problem. 2009 Cyhoeddi Alcohol Framework for Action (Yr Alban) 2010 Drug	Cyfrifoldeb yn LIC yn y portffolio Llywodraeth Leol a Chymunedau 2008 Cynllun Gweithredu Tair Blynedd y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau 2008-11 2008 y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau = £25 miliwn 2008 Sefydlu Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau 2009 - Dyroddi canllawiau ar droi'r 22 Tîm Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau yn 7 Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) 2009 Clustnodi £1 miliwn ar gyfer gwasanaethau Haen 4 2009 Canllawiau newydd ar Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar	2008 Mwy o wahaniaethau'n codi rhwng polisi a strategaeth pedair gwlad y DU. Llywodraeth Cymru yw'r unig weinyddiaeth yn y DU sy'n parhau â pholisi sylweddau cyfunol. Er hynny, mae rhai meysydd gweithredu mwy yn gyffredin i'r polisïau: mae Atal, Lleihau Niwed, Triniaeth ac Argaeledd yn themâu cyffredin. Elfennau 'ymadfer' yn codi mewn polisïau, yn enwedig yn yr Alban Cyllid – ffrydiau cyfun; Y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau, lechyd (Byrddau lechyd Lleol), Cyfiawnder Troseddol (y Swyddfa Gartref;

	Cyffuriau 8% 2011 – Trydydd refferendwm; mwy o bwerau 2011 Pedwerydd Etholiad y Cynulliad; Llafur yn ennill 50% o'r seddau eto 2012 Cyflwyno Comisiynwyr Heddlu a Throseddau	Strategy 2010, reducing demand, restricting supply, building recovery: supporting people to live a drug free life (Lloegr) 2012 Strategaeth Alcohol y Llywodraeth 2012 Deddf Alcohol (Isafbris) (Yr Alban) 2012	Gamddefnyddio Sylweddau 2009 Cyflwyno'r Proffil Canlyniadau Triniaeth 2009 Y Gynhadledd Gyntaf i Ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymru 2010 Sefydlu BCAau 2010 Cynyddu cyllideb y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau £5.9 miliwn i £34.5 miliwn. 2010 Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd – sefydlu'r ardaloedd arloesi 2011 Dechrau defnyddio'r Gronfa Ddata newydd ar gyfer Lleihau Niwed 2011 Llywodraeth Cymru yn cefnogi Recovery Cymru 2011 Sefydlu Grŵp Economi Hwyr y Nos Cymru Gyfan 2012 Trosglwyddo cyfrifoldeb yn LIC i Wasanaethau Iechyd a Chymdeithasol	yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf), ac elfennau eraill sy'n cyfrannu. Clustnodi arian y Byrddau Iechyd Lleol. Yr Alban yn datgan ei bod yn parhau â'i hymdrech i drin alcohol fel un o'r thair blaenoriaeth bolisi uchaf. Nid oes dim yn cyfateb i hyn mewn mannau eraill; yn wir, mae polisi ar alcohol a chyffuriau yn dechrau gwanhau yn Lloegr. Cyfuno cyllidebau; yng Nghymru drwy bortffolio gweinidogol newydd a thrwy Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau ar gyfer cyfuno arian yr Heddlu ac arian y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau
2013-2016	2013 Cyllid gan y Swyddfa Gartref i'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn dod i ben	2016 Deddf Sylweddau Seicoweithredol	2013 Cyllideb y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau yn 2013/14 yw £32.547 miliwn, a £22.663 miliwn ohono wedi'i ddyrannu	Etholiadau'r Cynulliad yn symud i gylch 5 mlynedd sefydlog. Y polisi a'r cyfrifoldeb yn LIC yn

	2014 Deddf Cymru 2015 Etholiadau'r DU; Y Ceidwadwyr gyda David Cameron yn ennill mwyafrif 2016 Pumed Etholiadau'r Cynulliad; Llafur yn ennill 29 o seddau, yn brin o fwyafrif 2016 Refferendwm 'Brexit' 2016 Cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar argymhellion ar yfed alcohol ar y cyd gan Brif Swyddogion Meddygol y DU		i BCAau (clustnodi £2.75 miliwn ar gyfer prosiectau i blant a phobl ifanc a £17.134 miliwn o fewn BILlau) 2013 Cyflwyno Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau: Systemau Gofal Integredig sy'n Canolbwyntio ar Adferiad 2013 Lansio WEDINOS (Welsh Network of Emerging Drugs and Identification of Novel Substances) 2014 Cyhoeddi Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau: Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau 2014 Sefydlu'r Bwrdd Dadansoddi Data a Gwybodaeth 2015 Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyhoeddi adroddiad ar ei ymchwiliad i'r camddefnydd o alcohol a chyffuriau 2016 Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am y maes yn LIC ar ôl yr etholiad 2016 (Medi) Cyhoeddi Cynllun	parhau'n rhan o faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (gan adlewyrchu'r cyfrifoldeb a chyfeiriad polisi a ddatblygwyd).
--	---	--	---	--

			Cyflawni 2016-18	
2017 ac wedyn	2017 Etholiadau'r DU 2017 Deddf Cymru; yn diwygio Deddfau 2006 a 2014			Deddf 2017 yn pennu'r pwerau a roddir a'r rheini a gedwir yn ôl, gan ei wneud yn glir, ar un ystyr, beth nad yw LIC yn gallu ei wneud. Gallai hyn arwain at ddileu'r cyfle i LIC gyflwyno cyfraith ar Isafbris Uned ar wahân i Loegr ¹⁸ .

¹⁸ Ers ysgrifennu'r adroddiad hwn, cafwyd cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r Isafbris Uned. Yn gyntaf, cyflwynwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) ac mae'n mynd drwy broses craffu'r Cynulliad ar hyn o bryd; ac, yn ail, mae'r Isafbris Uned yn yr Alban bellach wedi trechu'r holl heriau cyfreithiol ac mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi y bydd yn dod i rym ar 1 Mai 2018.

3. Atodiad C – Modelau Rhesymeg Tybiedig

Comisiynwyd yr adolygiad hwn gan ragnodi mai methodoleg Dadansoddi Cyfraniad a oedd i'w defnyddio. Elfen ganolog yn y broses hon yw pennu modelau rhesymeg. Dangoswyd drwy'r broses adolygu nad oedd modelau rhesymeg penodol, ffurfiol wedi'u pennu ar ddechrau cyfnod y Strategaeth. Fodd bynnag, drwy brofion, daeth yn glir i dîm yr adolygiad fod damcaniaeth newid ymhlyg wedi'i dilyn wrth ddatblygu'r Strategaeth. Mae'r Atodiad hwn yn crynhoi'r ystyriaethau hyn ac, wrth wneud hynny, yn cynnig (1) damcaniaeth newid dybiedig, (2) set o fodelau rhesymeg tybiedig ar y 'man cychwyn' (2008), a (3) awgrym am ddelwedd ar gyfer y camau posibl nesaf.

3.1 Cyd-destun

Mae'r ystyriaethau am y Ddamcaniaeth Newid dybiedig (gweler **Adran 5** o'r prif adroddiad) yn dangos gweithgarwch neu effaith mewn nifer o feysydd (sy'n dod yn fodelau rhesymeg tybiedig ar gyfer y 'man cychwyn'). Yr hyn nad oedd y Strategaeth wedi'i wneud, ac sydd heb ei wneud felly yn yr Atodiad hwn, yw awgrymu pwysoliadau ar gyfer y meysydd hyn, h.y. a oes rhagdybiaeth bod un maes neu weithgarwch penodol yn debygol o gyfrannu mwy na'i gilydd (ac a yw'r adnoddau a/neu weithgareddau yn dilyn pwysoliadau o'r fath).


Mae strategaethau'n adlewyrchu polisi. Er mwyn eu deall, mae'n bwysig deall y cyd-destun polisi. Fodd bynnag, mae'r defnydd o alcohol a chyffuriau eraill yn torri ar draws nifer mawr o agendâu, felly mae'n ymfodol mewn cymdeithasau cyfan.

Mae strategaethau ar alcohol a chyffuriau eraill yn ymwneud yn bennaf â delio â'r canlyniadau negyddol i'r defnydd ohonynt. Felly, er mwyn deall y cyd-destun ehangach, mae'n bwysig:

- deall y ffactorau cymhleth sy'n cyfrannu at ddatblygu ac esblygu polisi (gweler **Ffigur A3.1** isod).

- gosod yr hyn sy'n cael ei werthuso (h.y. gweithgareddau sy'n ymwneud â Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru) o fewn ystod o ystyriaethau eraill sydd yr un mor debygol o gyfrannu at unrhyw newid mewn defnydd/ymddygiad/canlyniadau i ddefnyddio alcohol a chyffuriau¹⁹ (gweler **Tabl A3.2** isod).

Ffigur A3.1: Model polisi



¹⁹ Wrth gwrs, dyma holl ddiben y dull Dadansoddi Cyfraniad.

Tabl A3.2: Enghreifftiau o ystyriaethau eraill

Cylch dylanwad	Enghreifftiau o ystyriaethau
Gweithgareddau eraill LIC	• Yn benodol: iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, troseddol, tai, digartrefedd, cam-drin domestig ac iechyd meddwl
Blaenoriaethau/pwysau eraill i weithredwyr/asiantaethau allweddol	• Cyni • Rheoli risg
Gweithgareddau Llywodraeth y DU	• Y system budd-daliadau • Cyfraith trosedd • Gweithgarwch ar ffiniau
Gweithgareddau Diwydiant	• Alcohol • Tybaco • Ffarmacoleg • Anghyfreithlon
Gweithgareddau/polisi ar alcohol a chyffuriau mewn gwledydd tramor	• Y rhyfel yn erbyn opiwm yn Affganistan • Ymfudo (gwahanol boblogaethau o droseddwyr)
Llesiant yr unigolyn	• Cariad • Ysbrydolrwydd

3.2 Man cychwyn cyffredinol tybiedig (ymhlyg) y Strategaeth

Mae'n werth nodi bod y strategaeth *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed* yn ddogfen sefydlog, ond ei bod yn dilyn ei llwybr ei hun y gellir ei ddeall yn well drwy ystyried (1) dogfennau a digwyddiadau blaenorol (gweler **Atodiad B**), (2) ei mannau cychwyn (2008), a (3) y fframwaith presennol ar gyfer adrodd a monitro ochr yn ochr â datblygiadau diweddar mewn polisi a chyfraith.

Yn y cyd-destun hwn, nid yw'r disgrifiad presennol o'r fframwaith, tirwedd, problemau ac atebion yn adroddiad 2016²⁰ yn cyfateb yn union i'r sefyllfa yn 2008. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod polisi iechyd a gofal cymdeithasol yng nghyd-destun *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Rhagdybiaeth gychwynnol gyffredinol y Strategaeth oedd bod pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau eraill yn achosi niwed sylweddol iddyn nhw eu hunain ac i gymdeithas²¹. Y rhagdybiaeth ymhlyg felly oedd bod 'rhai' pobl yn 'camddefnyddio' sylweddau, a hyn sy'n egluro pam roedd y Strategaeth hon wedi'i galw'n strategaeth 'camddefnyddio' (gweler **Adran 4** o'r prif adroddiad), er bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw hefyd i ddefnydd gan y boblogaeth gyfan, sy'n agenda ar 'ddefnyddio' sylweddau.

Felly roedd y model rhesymeg craidd ar gyfer man cychwyn 2008 wedi'i seilio'n glir ar y rhagdybiaeth bod 'camddefnyddio yn cyfateb i niwed'.


²⁰ Llywodraeth Cymru (2016). *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Adroddiad Blynnyddol a Rhagolwg Camddefnyddio Sylweddau 2016*. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dhss/publications/161220ar-sm-cy.pdf>

²¹ Un ystyriaeth gritigol i dîm yr adolygiad oedd bod y defnydd o alcohol a rhai cyffuriau eraill hefyd yn ddymunol, yn creu gweithgarwch economaidd ac yn rhoi nifer o wahanol fuddion cadarnhaol.

Ffigur A3.3: Model Rhesymeg Craidd Tybiedig y Strategaeth – 2008

CYD-DESTUN: Mae pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau eraill yn achosi niwed sylweddol iddyn nhw eu hunain ac i gymdeithas.

SAIL RESYMEGOL: Gellir lleihau'r mathau o niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau os caiff y defnydd ohonynt ei leihau, os yw mesurau atal a thriniaeth yn effeithiol ac os cyfyngir ar y cyflenwad.




3.3 Meysydd tybiedig (ymhlyg) y Strategaeth

Mae'r Strategaeth yn enwi pedwar maes: (1) lleihau niwed, (2) cymorth i ddefnyddwyr sylweddau, (3) teuluoedd a (4) mynd i'r afael ag argaeledd drwy gamau gorfodi. Mae'r diagramau canlynol (**Ffigurau A3.4-A3.7**) yn trosi'r meysydd hyn yn fodelau rhesymeg ymhlyg.

Ffigur A3.4: Model Rhesymeg Maes Gweithredu Tybiedig 1 (Atal Niwed) – 2008

CYD-DESTUN: Mae pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau eraill yn achosi niwed sylweddol iddyn nhw eu hunain ac i gymdeithas.

SAIL RESYMEGOL: Gellir lleihau'r mathau o niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau os caiff y defnydd ohonynt ei leihau (a gellir cyflawni hyn drwy weithgareddau ar gyfer atal a hybu ymwybyddiaeth).




KEY: CYP = Children and Young People

Ffigur A3.5: Model Rhesymeg Maes Gweithredu Tybiedig 2 (Cynorthwyo Camddefnyddwyr Sylweddau) – 2008

CYD-DESTUN: Mae pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau eraill yn achosi niwed sylweddol iddyn nhw eu hunain ac i gymdeithas.


SAIL RESYMEGOL: Gellir lleihau'r mathau o niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau os caiff y defnydd ohonynt ei leihau (a gellir cyflawni hyn drwy driniaeth effeithiol a chymorth i ymgynnal ar ôl ymadfer).



*Mae'r strategaeth Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed yn cyfeirio at 'gamddefnyddwyr sylweddau'. Mae term o'r fath yn anghydnaws â'r syniadau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy'n cyfeirio at 'gymorth i unigolion'.

CYD-DESTUN: Mae pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau eraill yn achosi niwed sylweddol iddyn nhw eu hunain ac i gymdeithas.

SAIL RESYMEGOL: Gellir lleihau'r mathau o niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau drwy ddull mwy cyfannol o ddarparu cymorth ac ymyriadau i deuluoedd.




*Mae tystiolaeth yn awgrymu bod tri math o ymyriad teuluol: (1) ymyriad therapi teuluol, (2) gwaith gyda theuluoedd i ddylanwadu ar y defnyddiwr sylweddau yn unig, a (3) gweithio gyda theuluoedd i gwrdd â'u hanghenion eu hunain yn unig ac nid anghenion y defnyddiwr sylweddau.

Ffigur A3.7: Model Rhesymeg Maes Gweithredu Tybiedig 4 (Delio ag Argaeledd drwy Gamau Gorfodi) – 2008

CYD-DESTUN: Mae pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau eraill yn achosi niwed sylweddol iddyn nhw eu hunain ac i gymdeithas.


SAIL RESYMEGOL: Gellir lleihau'r mathau o niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau drwy leihau'r cyflenwad o gyffuriau anghyfreithlon a gorfodi'r gyfraith ar gyflenwi alcohol.




3.4 Ystyriaethau presennol (ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth)

Mae'r modelau rhesymeg uchod wedi'u cyflwyno ar ffurf linol draddodiadol. Mae tîm yr adolygiad yn awgrymu y gellir deall y sefyllfa bresennol yn well mewn model rhesymeg hybrid. Mae'r ddelwedd ganlynol (**Ffigur A3.8**) yn awgrym o ffordd i ddangos natur ddynamig a hylifol y gwahanol gyfraniadau at effaith y Strategaeth. Mae'n ymdrin â'r diddordebau polisi presennol a'r cyfeiriadau ar gyfer darparu gwasanaethau ar sail y senario a ffeirir o 'well llesiant i bawb', yn hytrach na chanolbwyntio ar 'yr effaith o leihau niwed' (sydd wedi'i adlewyrchu ym modelau rhesymeg tybiedig y man cychwyn sydd wedi'u dangos uchod). Mae'n awgrymu alinio ac integreiddio polisi ar ddefnyddio (nid 'camddefnyddio') sylweddau â'r polisi sydd bellach yn flaenaf yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Ffigur A3.8: Dehongliad o'r model rhesymeg presennol (hybrid)



Ffigur A3.9: Y Meysydd Llesiant Presennol



Hyrwyddo Llesiant	Hybu Iechyd Lleihau niwed (i unigolion a'r gymuned) Dargyfeirio Eirioli
Ymyrryd yn ystod methiant mewn llesiant	Dadwenwyno cleifion mewnol/yn y gymuned Adsefydlu Preswyl Digartrefedd Cyfiawnder Troseddol Iechyd Meddwl Cam-drin Domestig
Cynnal a hybu llesiant	Triniaeth Cwnsela Grwpiau Cymheiriaid Hunangymorth Ymadfer

4. Atodiad D – Adroddiadau Alcohol Concern Cymru (Papurau Ymchwil a Briffio)

Mae prif adroddiad yr adolygiad yn cyfeirio mewn nifer o fannau at gorff o waith a gwblhawyd dros y cyfnod 2011-2016 gan Alcohol Concern Cymru. Credir bod yr ystyriaethau hyn i bolisi ac ymchwil yn werthfawr am eu bod yn ymwneud yn benodol â'r cyd-destun yng Nghymru. Mae rhestr yn yr Atodiad hwn o'r prif ddogfennau a phrif negeseuon sydd wedi'u hystyried yn yr adolygiad o'r Strategaeth.

³² Gray L a Leyland AH (2009) Is the "Glasgow Effect" of cigarette smoking explained by socio-economic status? A multilevel analysis. BMC Open Access July.

³³ Chick, J a Gill, J (2015) Alcohol pricing and purchasing among heavy drinkers in Edinburgh and Glasgow: current trends and implications for pricing policies. London Alcohol Research UK.

Tabl A6.3: Crynodeb o Adolygiadau Systematig ar Alcohol a Chyffuriau

Teitl yr Adolygiad	Nifer yr astudiaethau a adolygwyd	Nifer y Cyfranogwyr	A yw'n dangos budd/effeithiolrwydd
Amato, L; Minozzi, S; Vecchi, S a Davoli, M (2010) Benzodiazepines for acute alcohol withdrawal syndrome. Rome: Cochrane Collaboration Wiley. 17;(3):CD005063. doi: 10.1002/14651858.CD005063.pub3	64	4309	Ydy – ar ôl eu cymharu â phlasebo am reoli trawiad yn y syndrom diddyfnu o alcohol. Er hynny, mae nifer o'r canlyniadau'n debyg i'r rheini o ddefnyddio cyffuriau eraill e.e. Clordiasepocsid a oedd yn perfformio'n well mewn rhai achosion. Mae data am ddiogelwch yn brin.
Amato, L; Minozzi, S. Davoli, M a Vecchi, S (2011) Psychosocial combined with agonist maintenance treatments versus agonist maintenance treatments alone for treatment of opioid dependence. Oxford: Cochrane Collection Wiley. 5;(10):CD004147. doi: 10.1002/14651858.CD004147.pub4.	34	3777	Nac ydy – ni chafwyd eu bod yn fuddiol gan nad oedd yr astudiaethau'n ddigon sensitif i fesur canlyniadau seicogymdeithasol o ran llesiant neu'n ddigon hir i fesur yr effaith ar gyfraddau marwolaeth.
Amato, L; Minozzi, S; Davoli, M; Vecchi, S; Ferri M.M a Mayet, S (2011) Psychosocial and pharmacological treatments versus pharmacological treatments for opioid	11	1592	Ydy – cafwyd bod effeithiau ar ôl cwblhau'r driniaeth. Er hynny, roedd y dystiolaeth yn gyfyngedig am fod nifer y cyfranogwyr yn fach, am nad oedd canlyniadau'n ddigon manwl ac am

detoxification. Oxford: Cochrane Collection Wiley. 16;(3):CD005031. doi: 10.1002/14651858.CD005031.pub2			nad oedd yn bosibl cynnal dadansoddiad cronol.
Amato, L; Minozzi, S a Davoli, M (2011) Safety and efficacy of medicines for the treatment of alcohol withdrawal syndrome. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 6. Art. No.: CD008537. DOI: 10.1002/14651858.CD008537.pub2.	5 adolygiad 114 astudiaeth	7333	Nac ydy – Yr unig ganfyddiad ystadegol arwyddocaol oedd bod bensodiasepinau yn perfformio'n well na phlasebo ar gyfer rheoli trawiadau (3 astudiaeth/324 o gleifion, tystiolaeth o ansawdd gymedrol) a bod bensodiasepinau hefyd yn well na chyffuriau gwrthseicotig (4 astudiaeth/ 633 o gleifion, tystiolaeth o ansawdd da).
Amato, L; Davoli, M; Minozzi, S; Ferroni, E; Ali, R a Ferri, M (2013) Methadone at tapered doses for the management of opioid withdrawal. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 2. Art. No.: CD003409. DOI: 10.1002/14651858.CD003409.pub4.	23	2467	Ydy – roedd yr astudiaethau'n cadarnhau bod cyfnewid opioidau hir eu heffaith dros dro yn raddol ac yn araf yn gallu lleihau'r effeithiau difrifol o ddiddychu. Er hynny, roedd mwyafrif y cleifion a oedd yn cymryd heroin yn atglafychu. Roedd gwahaniaethau o ran meddyginiaeth a'r rheolaeth a fabwysiadwyd yn arwain at symptomau gwahanol mewn cyfranogwyr. Roedd rhai 15-34 blwydd oed yn profi risg fwy o farwolaeth.
Carney, T; Myers, B.J; Louw, J ac Okwundu, C.I (2016) Brief school-based interventions and behavioural outcomes for substance-using	6	1176	Tystiolaeth o ansawdd gwael neu wael iawn bod ymyriadau'n lleihau'r defnydd o ganabis ac alcohol, yn hytrach na defnydd o sylweddau ac

adolescents. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 1. Art. No.: CD008969. DOI: 10.1002/14651858.CD008969.pub3.			ymddygiad tramgwyddus yn gyffredinol. Dangoswyd bod yr effeithiau hyn yn parhau mewn astudiaeth ddilynol hirdymor. Mae angen cynnal rhagor o astudiaethau.
Castells, X; Cunill, R; Pérez-Mañá, C; Vidal, a Capellà, D (2016) Efficacy of psychostimulant drugs for cocaine dependence. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 9. Art. No.: CD007380. DOI: 10.1002/14651858.CD007380.pub4.	26	2366	Nid yw'r effeithiolrwydd yn hollol glir ond mae'n ymddangos yn addawol ac yn teilyngu rhagor o ymchwil.
Darker, C. D; Sweeney, B.P; Barry, J.M; Farrell, M.F a Donnelly-Swift. E (2015) Psychosocial interventions for benzodiazepine harmful use, abuse or dependence. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 5. Art. No.: CD009652. DOI: 10.1002/14651858.CD009652.pub2.	25	1666	Nac ydy – yn annigonol ar hyn o bryd. Mae tystiolaeth yn dangos bod effaith dymor byr o 3 mis ond nad yw'n parhau ar ôl 6 mis.
Faggiano, F; Minozzi, S; Versino,E a Buscemi, D (2014) Universal school-based prevention for illicit drug use. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 12. Art. No.: CD003020. DOI: 10.1002/14651858.CD003020.pub3.	51	127,146	Ydy – effeithiau bach ond arwyddocaol wedi'u seilio ar ymyriadau cymhwysedd cymdeithasol a dylanwad cymdeithasol ar gyfer strategaethau i atal y defnydd o gyffuriau. Dylid ei gynnwys mewn strategaethau cyffuriau cynhwysfawr er mwyn cael effaith ar lefel y boblogaeth.

Ferri, M; Minozzi, S; Bo, A ac Amato, L (2013) Slow -release oral morphine as maintenance therapy for opioid dependence. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 6. Art. No.: CD009879. DOI: 10.1002/14651858.CD009879.pub2.	3	195	Nac ydy – astudiaethau annigonol, 2 yn awgrymu'r posibilrwydd o leihau'r defnydd o opioidau, un yn awgrymu bod morffin a gymerir drwy'r geg sy'n cael ei ryddhau'n araf yn lleihau symptomau iselder.
Ferri, M; Allara, E; Bo, A; Gasparrini, A a Faggiano, F (2013) Media campaigns for the prevention of illicit drug use in young people. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 6. Art. No.: CD009287. DOI: 10.1002/14651858.CD009287.pub2.	23	188,934	Nac ydy – nid yw'n gallu dod i gasgliadau ynghylch a yw ymgyrchoedd yn y cyfryngau'n effeithiol ar gyfer atal y defnydd o gyffuriau ymysg pobl ifanc.
Ferri, M; Davoli, M a Perucci, C.A (2014) Heroin maintenance for chronic heroin-dependent individuals. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 12. Art. No.: CD003410. DOI: 10.1002/14651858.CD003410.pub4.	8	2007	Ydy – ar gyfer y rheini sydd â hanes o fethiannau mewn therapi ymgynnal, darperir heroin i'w chwistrellu ar y safle 2-3 gwaith y dydd. Llai o ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau, troseddoldeb, a charcharu ac mae'n rhagdybio drwy gysylltiad y bydd llai o farwolaethau yn ystod triniaeth a llai'n cael eu cadw mewn triniaeth.
Foxcroft, D.R a Tsertsvadze, A (2011) Universal family-based prevention programs for alcohol misuse in young people. Oxford: Cochrane	12 hap-dreial wedi'i reoli	Nifer amhenodol o fyfyrwyr 18	Ydy – effaith fach ond cyson a pharhaus at ei gilydd mewn astudiaethau a oedd yn ymwneud â gwella sgiliau rhianta, sgiliau cymdeithasol a

Collaboration Wiley. Issue 9. Art. No.: CD009308. DOI: 10.1002/14651858.CD009308.			oed neu'n iau	sgiliau gwrthsefyll dylanwad cyfoedion.
Foxcroft, D.R a, Tsertsvadze, A (2011) Universal school-based prevention programs for alcohol misuse in young people. Oxford: Cochrane Collaboration Wiley. Issue 5. Art. No.: CD009113. DOI: 10.1002/14651858.CD009113.	53		Nifer amhenodol o fyfyrwyr 18 oed neu'n iau	Ydy – cafwyd yr effaith fwyaf cyffredin ar oryfed mewn pyliau a meddwdod. Mae rhai rhaglenni seicogymdeithasol a datblygiadol generig yn effeithiol a dylid eu hystyried mewn polisi 'Lifeskills, Unplugged and Good Behaviour Game'.
Foxcroft, D.R a, Tsertsvadze, A (2011) Universal multi-component prevention programs for alcohol misuse in young people. Oxford: Cochrane Collaboration Wiley. Issue 9. Art. No.: CD009307. DOI: 10.1002/14651858.CD009307.	20		Heb ei nodi	Nac ydy – roedd 12 o blith 20 o raglenni'n dangos rhywfaint o effaith o ymyriadau amlgyfran. Er hynny, nid oes nemor ddim tystiolaeth bod y rhain yn fwy llesol nag ymyriadau sengl.
Foxcroft, D. R; Moreira, M.T; Almeida Santimano, N.M.L a Smith, L.A (2015) Social norms information for alcohol mis-use in university and college students. Oxford: Cochrane Collaboration Wiley. Issue 12. Art. No.: CD006748. DOI: 10.1002/14651858.CD006748.pub4.	70	44,958		Nac ydy – roedd effaith yr ymyriad yn fach neu'n gymedrol gan na chafwyd buddion parhaus o ymyriadau normau cymdeithasol ar ôl 4-5 mis.
Foxcroft D.R; Coombes L; Wood S; Allen D;	84	22,872		Nac ydy – tystiolaeth fach neu ffiniol bod cyf-weld

Almeida Santimano N.M.L a Moreira M.T (2016) Motivational interviewing for the prevention of alcohol misuse in young adults. Cochrane Database of Systematic Reviews Issue 7. Art. No.: CD007025. DOI: 10.1002/14651858.CD007025.pub4.			ysgogiadol yn lleihau'r defnydd o alcohol, amllder defnyddio neu droseddau cysylltiedig ar ôl 4 mis ac mewn astudiaeth ddilynol ar ôl 12 mis o boblogaeth 15-24 oed.
Gates, P.J; Sabioni, P; Copeland, J; Le Foll, B a Gowing, L (2016) Psychosocial interventions for cannabis use disorder. Oxford: Cochrane Collaboration Wiley. Issue 5. Art. No.: CD005336. DOI: 10.1002/14651858.CD005336.pub4.	23	4045	Nac ydy – nid oedd y canlyniadau'n glir a phrin oedd y lle i'w cyffredinolli. Roedd y cyfraddau ymwrthod yn isel neu ansefydlog er bod ymyriadau seicogymdeithasol yn lleihau amllder a difrifoldeb y defnydd yn y tymor byr. Roedd y dystiolaeth gryfaf o blaid Therapi Gwella Ysgogiadol Dwys a Therapi Gwella Gwybyddol (4) gyda chymhellion wedi'u seilio ar ymwrthod.
Gates, S; Smith, L.A a Foxcroft, D (2008) Auricular acupuncture for cocaine dependence. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 1. Art. No.: CD005192. DOI: 10.1002/14651858.CD005192.pub2.	7	1433	Dim tystiolaeth am fod yr astudiaeth o ansawdd gwael, yn defnyddio 3, 4 neu 5 o'r pwyntiau aciwbigo sydd wedi'u hargymell. Mae angen rhagor o ymchwil.
Gowing, L; Ali, R a White, J.M (2010) Opioid antagonists under heavy sedation of anaesthesia for opioid withdrawal. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 1. Art. No.:	9	1109	Nac ydy – mae'r risg o effeithiau niweidiol drwy dawelyddu cryf, y gost ariannol uchel, diffyg gwelyau gofal dwys a diffyg budd yn golygu na ddangoswyd bod gwerth mewn diddyfnu wedi'i

CD002022. DOI: 10.1002/14651858.CD002022.pub3.			ysgogi gan wrthweithydd.
Gowing, L; Farrell, M.F; Bornemann, R; Sullivan, L.E ac Ali,R (2011) Oral substitution treatment of injecting opioid users for prevention of HIV infection. Oxford: Cochrane Collection Wiley. Issue 8. Art. No.: CD004145. DOI: 10.1002/14651858.CD004145.pub4.	38	12,400	Ydy – mae’n gostwng cyfraddau trosglwyddo HIV gan ei fod yn lleihau’n sylweddol y defnydd o gyffuriau drwy chwistrellu, rhannu offer chwistrellu, nifer y partneriaid rhyw lluosog a nifer yr achosion o gyfnewid rhyw am gyffuriau neu arian. Nid yw’n cael effaith fawr ar y defnydd o gondomau. Er hynny, roedd yr astudiaethau wedi’u rheoli’n wael o ran bias.
Indave, B.I; Minozzi, S; Pani, P.P ac Amato, L (2016) Antipsychotic medications for cocaine dependence. Oxford: Cochrane Collection. Issue 3. Art. No.: CD006306. DOI: 10.1002/14651858.CD006306.pub3.	14	719	Cyfngiad mawr ar y data yw nifer y bobl a oedd wedi tynnu’n ôl o’r astudiaethau a’r adrodd.
Klimas, J; Tobin, H; Field, C.A; O’Gorman, C.S.M; Glynn, L,G; Keenan, E; Saunders, J; Bury, G; Dunne, C a Cullen, W (2014) Psychosocial interventions to reduce alcohol consumption in concurrent problem alcohol users and illicit drug users. Oxford: Cochrane Collaboration Wiley. Issue 12. Art. No.: CD009269. DOI:	4	594	Nac ydy – ni allai ateb y cwestiwn am na allai gyfuno canlyniadau o astudiaethau oherwydd ansawdd gwael y dystiolaeth. Mae o ddiddordeb am ei fod yn cynyddu’r risg o gynydd yn effaith y feirws Hepatitis C ac o orddosau o opiadau. Nid yw’n sicr a yw therapïau siarad yn cael effaith ar bobl sy’n derbyn triniaeth yn bennaf am yfed alcohol neu ddefnyddio cyffuriau. Mae angen

10.1002/14651858.CD009269.pub3.			rhagor o ymchwil.	
Leone, M.A; Vigna-Taglianti, F; Avanzi, G; Brambilla, R a Faggiano, F (2010) Gamma-hydroxybutyrate (GHB) for the treatment of alcohol withdrawal and prevention of relapse. Turin: Cochrane Collaboration Wiley. Issue 2. Art. No.: CD006266. DOI: 10.1002/14651858.CD006266.pub2.	13	648	Nac ydy – nid oes digon o dystiolaeth i bennu a yw GHB yn fwy effeithiol na phlasebo neu feddyginiaeth arall. Y sgil-effeithiau a gofnodir amlaf yw cymryd dosau mwy, penysgafnder a'r bendro. Mae'r potensial am fynd yn gaeth iddo'n galw am oruchwyliaeth feddygol ofalus.	
Liu, L a Wang L.N (2015) Baclofen for alcohol withdrawal syndrome. Beijing: Cochrane Collaboration. Issue 4. Art. No.: CD008502. DOI: 10.1002/14651858.CD008502.pub4.	2	81	Nac ydy – tystiolaeth annigonol o ansawdd wael am ddefnyddioldeb Baclofen ar gyfer trin y syndrom diddyfnu o alcohol er bod un astudiaeth wedi cofnodi data am ddiogelwch ac wedi canfod nad oedd sgil-effeithiau o ddefnyddio Baclofen neu Diazepam. Mae angen rhagor o ymchwil.	
Marshall, K; Gowing, L; Ali, R a Le Foll, B (2014) Pharmacotherapies for cannabis dependence. Oxford: Cochrane Collaboration. Issue 12. Art. No.: CD008940. DOI: 10.1002/14651858.CD008940.pub2.	14	958	Nac ydy – roedd ansawdd y dystiolaeth wedi'i israddio a'i ddynodi'n wan. Nid oes fawr o werth yn y driniaeth bresennol sy'n defnyddio cyffuriau gwrthiselder, cyffuriau gwrthiselder annodweddiadol, cyffuriau lleihau gorbryder ac atalyddion ailamsugno norepineffrin. Dylid ystyried defnyddio tetrahydrocannabinol (THC) ond ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.	

McQueen; J; Howe, T,E; Allan, L; Mains, D a Hardy, V (2011).Brief interventions for heavy alcohol users admitted to hospital wards. Oxford: Cochrane Collaboration Wiley. Issue 8. Art. No.: CD005191. DOI: 10.1002/14651858.CD005191.pub3.	14	4041	Ydy – buddion mewn perthynas â lleihau'r defnydd o alcohol a gostwng cyfraddau marwolaeth. Dynion gan mwyaf ac mae angen rhagor o ymchwil.
Minozzi, S; Amato, L; Vecchi, S a Davoli, M (2010) Anticonvulsants for alcohol withdrawal. Rome: Department of Epidemiology Rome. Cochrane Collaboration Wiley.	56	4076	Nac ydy – nid oes digon o dystiolaeth bod cyffuriau gwrthgonfysliwn yn llesol wrth drin y syndrom diddyfnu o alcohol. Fodd bynnag, mewn 3 astudiaeth (262 o gyfranogwyr) dangoswyd y gall carbemasipin fod yn fwy llesol na bensodiasepinau. Mae angen rhagor o ymchwil ac astudiaethau ar raddfa fawr.
Minozzi, S; Amato, L; Vecchi, S; Davoli, M; Kirchmayer, U a Verster, A (2011) Oral naltrexone as maintenance treatment to prevent relapse in opioid addicts who have undergone detoxification.	13	1158	Nac ydy – Nid yw cymryd naltrexon drwy'r geg yn well na chymryd plasebo neu gyfryngau eraill e.e. bensodiasepinau a bwprenorffin o ran atal ailgarcharu. Cyfraddau cadw gwael o 28% yn yr astudiaethau.
Minozzi, S; Amato, L; Bellisario, C; Ferri, M a Davoli, M (2013) Maintenance treatments for opiate-dependent pregnant women. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	4	271	Ychydig o wahaniaethau a gafwyd wrth gymharu bwprenorffin, methadon neu morffin sy'n cael ei ryddhau'n araf a roddwyd rhwng 23 wythnos ar ôl beichiogi ac esgor. Mae'n ymddangos bod defnyddio methadon yn cadw mwy mewn triniaeth

			tra bydd y defnydd o bwprenorffin yn arwain at lai o achosion o syndrom ymwrthod newyddenedigol. Dim digon o dystiolaeth.
Minozzi, S; Amato, L; Bellisario, C a Davoli, M (2014) Detoxification treatments for heroin dependent adolescents. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	2	190	Nac ydy – mae cynnydd yn y nifer o rai 13-18 mlwydd oed sy'n cymryd heroin. Mae'r canlyniadau'n gyfyngedig oherwydd nifer bach yr astudiaethau. Roedd un treial yn awgrymu tueddiadau a oedd yn ffafrio defnyddio bwprenorffin yn hytrach na clonidin er mwyn lleihau'r nifer sy'n gadael triniaeth cyn pryd ond nid oedd gwahaniaeth ym mharhad a difrifoldeb y symptomau diddyfnu.
Minozzi, S; Amato, L; Bellisario, C a Davoli, M (2014) Maintenance treatment for opioid dependent adolescents. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	2	187	Nac ydy – gan ei bod yn anodd cymharu wrth ystyried 2 dreial yn unig, a'r ystyriaethau moesegol o gynnwys pobl ifanc. Mae angen cynnal astudiaethau sy'n cymharu ymyriadau ymgynnal ag ymyriadau dadwenwyno neu rai seicogymdeithasol cyn cynnal unrhyw astudiaethau o ymyriadau fferyllol. Hefyd mae angen cynnal astudiaethau hydredol o ganlyniadau ar fyrder.
Minozzi S; Cinquini, M; Amato, L; Davoli, M; Farrell, M.F; Pani, P.P a Vecchi, S (2015)	20	2068	Dim tystiolaeth mewn data sydd o ansawdd cymedrol o ganlyniad i gofnodi gwael a bias wrth

Anticonvulsants for cocaine dependence. Oxford: Cochrane Collection Wiley.			ddewis. Mae angen rhagor o ymchwil.
Amato, L; Minozzi, S; Pani, P.P; Solimini, R; Vecchi, S; Zuccaro, P a Davoli, M (2015) Dopamine agonists for the treatment of people who misuse cocaine. Oxford: Cochrane Collection.	24	2147	Heb ei ategu felly mae hyn yn caniatáu ystyried effeithiau llesol dichonol ac effeithiau niweidiol dichonol neu efallai ei gyfuno ag ymyriad seicogymdeithasol.
Minozzi S; Saulle, R; De Crescenzo, F ac Amato, L (2016) Psychosocial interventions for psychostimulant misuse. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	52	6923	Tystiolaeth o ansawdd cymedrol sy'n dangos gwell cydymffurfio at ddiwedd ymyriadau, gostyngiad yn y nifer sy'n gadael yr ymyriad cyn pryd a'r cyfnod ymwrthod hiraf ond nid yn gyffredinol yng nghyd-destun atglafychu.
Muckle W; Muckle J; Welch, V a Tugwell, P (2012) Managed alcohol as a harm reduction intervention for alcohol addiction in populations at high risk of substance abuse. Ottawa: University of Ottawa, Cochrane Library Wiley.	0 (22 yn berthnasol ond heb eu hystyried)	0	Nac ydy – tystiolaeth annigonol. Mae'n anodd datblygu mesurau o lwyddiant, dangos effeithiolrwydd tymor hir a pherthnasoedd achosol. Diffyg adolygiadau. Mae angen gwneud rhagor o waith. Nid oes tystiolaeth ar ei gyfer eto mewn adolygiad systematig neu fath arall o adolygiad.
Nielsen S; Larance, B; Degenhardt, L; Gowing, L; Kehler, C a Lintzeris N (2016) Opioid agonist treatment for pharmaceutical opioid dependent people. Cochrane Collection Wiley.	6	607	Tystiolaeth o ansawdd gwael neu gymedrol. Mae methadon a bwprenorffin yr un mor effeithiol. Mae ymgynnal â bwprenorffin yn ymddangos yn fwy effeithiol na dadwenwyno neu driniaethau

			seicolegol.
Pani, P.P; Trogu, E; Vacca, R; Amato, L; Vecchi, S a Davoli M (2010). Disulfiram for the treatment of cocaine dependence. Oxford: Cochrane Collection.	7	492	Tueddiadau sy'n dangos bod llai yn gadael triniaeth cyn pryd ond nid yw'r canlyniad yn ystadegol arwyddocaol.
Pani, P.P; Trogu, E; Vacca, R; Amato, L; Vecchi, S a Davoli M Antidepressants for cocaine abuse and dependence. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	37	3551	Dim tystiolaeth dros y prif ganlyniadau neu'r defnydd ohonynt fel y brif elfen mewn triniaeth, er eu bod yn cael effeithiau disgwylidig ar hwyliau a chanlyniadau eilaidd cysylltiedig e.e. iselder.
Pani, P.P; Trogu, E; Pacini, M a Maremmanni, I (2014) Anticonvulsants for alcohol dependence. Pisa: University of Pisa, Cochrane Collection Wiley.	25	2641	Nac ydy – dim digon o dystiolaeth o blaid eu defnyddio oherwydd y nifer bach o gyfranogwyr. Roedd 17 o dreialon â phlasebo yn dangos bod triniaeth â chyffuriau gwrthgonfylsiwn yn fwy effeithiol mewn perthynas â nifer y diodydd ac yfed trwm. Er hynny, nid yw'n glir a ydynt yn hybu ymwrthod ac nid oes tystiolaeth am sgil-effeithiau hysbys a rhai a gofnodwyd.
Perez-Mana, C; Castells, X; Torrens, M; Capella, D a Farre, M (2013) Efficacy of psychostimulant drugs for amphetamine abuse or dependency. Oxford: Cochrane Collaboration Wiley.	11	791	Nac ydy – defnyddiwyd 4 seicosymbylydd yn ogystal ag ymyriad seicogymdeithasol. Cafwyd nad oeddent yn lleihau ysfa nac yn cynyddu ymwrthodedd o'u cymharu â phlasebo. Mae angen cynnal rhagor o dreialon, yn hirach na 8-20 wythnos.

Perry, A.E; Neilson, M; Martyn-St James, M; Glanville, JM; Woodhouse, R; Godfrey, C a Hewitt C (2015) Interventions for drug-using offenders with co-occurring mental illness. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	8	2058	Nac ydy – diffyg cofnodi clir a gormod o amrywiadau, er bod 2 astudiaeth yn dangos rhywfaint o fudd mewn cymunedau therapiwtig ac ôl-ofal. Mae angen rhagor o astudiaethau.
Perry, A.E; Neilson, M; Martyn-St. James, M; Glanville, J.M; McCool, R a Duffy, S (2015) Interventions for female drug-using offenders. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	9	1792	Roedd 3 o blith 9 astudiaeth yn dangos tueddiadau cadarnhaol o ran lleihau cyfraddau ailgarcharu ond nid mewn cyfraddau ar gyfer defnyddio cyffuriau neu arestio. Mae angen cynnal astudiaethau sy'n disgrifio'r dulliau trin yn well ac yn nodi agweddau pwysig ar gyfer troseddwy'r benywaidd sy'n defnyddio cyffuriau.
Perry, A.E; Neilson M, Martyn-St James, M; Glanville, J.M; Woodhouse, R; Godfrey, C a Hewitt, C (2015) Pharmacological interventions for drug-using offenders. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	14	2647	Nifer bach o astudiaethau gyda lefelau uchel o fias. Canlyniadau cymysg gan nad ydynt yn lleihau'r defnydd o gyffuriau ond yn dangos effaith ar weithgarwch troseddol heb fod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng defnyddio methadon, bwprenorffin, diamorffin, neu naltrecson.
Rosner, S; Hackl-Herrwerth, A; Leucht, S; Leher, P; Vecchi, S a Soyka, M (2010) Acamprosate for alcohol dependent patients. Munich: University of Munich Cochrane Library Wiley.	24	6915	Ydy – mewn 3 astudiaeth nid oedd gwahaniaeth o'i gymharu â Naltrexone ar gyfer ailddechrau yfed / yfed yn drwm neu hyd cronol yr ymwrthod. Yn ddiogel ac effeithiol ar gyfer hybu ymwrthod ag alcohol ar ôl dadwenwyno. Ceir mwy o fudd o'i

			ddefnyddio gydag ymyriad seicogymdeithasol, yn lleihau'r risg o aildechrau yfed.
Rosner, S; Hackl-Herrwerth, A; Leucht, S; Lehert, P; Vecchi, S; Srisurapanont, M a Soyka, M (2010). Opioid antagonists for alcohol dependence. Oxford: Cochrane Collaboration Wiley.	50	7793	Ydy – roedd cymryd Naltrexone dros gyfnod o dri mis yn helpu i leihau maint yr alcohol a oedd yn cael ei yfed. Mae'r data am Nalmefene yn rhy brin i wneud sylwadau amdanynt.
Sarai, M; Tejani, A.M; Chan, A.H; Kuo, I.F a Li, J (2013) Magnesium for alcohol withdrawal. Vancouver: University of British Columbia Cochrane Collection Wiley.	4	317	Nac ydy – dim digon o ddata/manylion/ gwybodaeth am y buddion neu'r niwed o gymryd atchwanegyn magnesiwm. Ceir lefelau magnesiwm isel mewn nifer mawr o'r rheini sy'n profi'r syndrom diddyfnu o alcohol a hynny'n arwain at yr awgrym bod hyn yn achosi 'gorgynhyrfeidd' a nifer o'r symptomau sy'n gysylltiedig â'r syndrom diddyfnu o alcohol.
Siegfried, N; Pienaar, D.C; Ataguba, J.E; Volmink, J; Kredo, T; Jere, M a Parry C.D.H (2014). Restricting or banning the advertising of alcohol to reduce alcohol consumption in adults and adolescents. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	4	80	Dim effaith glir, tystiolaeth o ansawdd gwael o 3 astudiaeth dros gyfnod o amser gyda bylchau a gynhaliwyd yng Nghanaada yn y 1970au/1980au. Hap-dreial wedi'i reoli yn yr Iseldiroedd.
Smedslund, G; Berg, R.C; Hammerstrøm, K.T; Steiro, A; Leiknes, K.A; Dahl, H.M a Karlsen, K	59	13,342	Ydy – roedd pobl a oedd yn derbyn cyfweliadau ysgogiadol yn lleihau eu defnydd o sylweddu yn

(2011) Motivational interviewing for substance abuse. Oxford: Cochrane Collection Wiley.			fwy na'r rheini a oedd heb eu derbyn. Er hynny, mae'n ymddangos bod cyf-weld ysgogiadol yr un mor effeithiol â thriniaeth weithredol, triniaeth yn ôl yr arfer neu adborth. Dim digon o ddata am gyf-weld ysgogiadol i adrodd arnynt.
Terplan, M; Ramanadhan, S; Locke, A; Longinaker, N a Lui S (2015) Psychosocial interventions for pregnant women in outpatient illicit drug treatment programs compared to other interventions. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	14	1298	Dim gwahaniaeth lle'r oedd cyfsweliadau ysgogiadol wedi'u cynnal yn rhan o ofal cynhwysfawr. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw astudiaethau wedi gwerthuso canlyniadau obstetrig neu newyddenedigol fel ei bod yn anodd asesu'r canlyniadau i ymyriadau seicogymdeithasol. Mae angen rhagor o astudiaethau manwl.
Thomas RE, Thomas, R.E; Lorenzetti, D a Spragins, W (2011) Mentoring adolescents to prevent drug and alcohol use. Oxford: Cochrane Collection Wiley.	4	1194	Pobl ddifreintiedig a phobl leiafrifol yn cynnwys cohort y mae eu rhieni'n bobl sy'n byw gyda HIV. Mewn 2 astudiaeth, roedd mentora'n lleihau'r nifer a oedd yn dechrau yfed alcohol ac mewn un roedd yn lleihau'r nifer a oedd yn dechrau defnyddio cyffuriau. Mae'r awduron yn nodi bod yr astudiaethau wedi edrych ar raglenni ffurfiol er bod y rhan fwyaf o'r mentora yn anffurfiol ac felly heb ei gofnodi.

Methodoleg strwythuredig ar gyfer chwilio am lenyddiaeth

Yn y paragraffau sy'n dilyn, mae crynodeb o'r prosesau a ddilynwyd i lunio'r Atodiad hwn.

Dechreuwyd chwilio am lenyddiaeth drwy gynnal dadansoddiad strwythuredig o gronfeydd data. Nodwyd yr 11 cronfa ddata ganlynol fel y ffynonellau gwybodaeth a oedd yn fwyaf tebygol o gynnwys astudiaethau penodol, Hapdreialon wedi'u Rheoli neu adolygiadau systematig o ymyriadau: Campbell Collaboration, CRD (York) Reviews, Cochrane Collection Systematic Review Database, DARE, Drug and Alcohol Findings Effectiveness Bank, European Monitoring Centre for Drugs and Drug Addiction (EMCDDA), Health Technology Assessment (HTA), NHS Economic Evaluation Database (NHS-EED), National Institute for Health and Care Excellence (NICE), Prospero a Public Library of Science (PLOS).

Dechreuwyd chwilio drwy ddefnyddio'r termau cyfeirio allweddol 'Wales' neu 'Welsh' yn ogystal â rhai cysylltiedig â defnyddio sylweddau. Ond ni chafwyd canlyniadau penodol. Gwaetha'r modd, prin iawn oedd y dogfennau a gafwyd a oedd yn cyfeirio at Gymru yn unig. Y rheini y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd dogfennau o'r DU a oedd yn ymwneud â'r Swyddfa Gartref; astudiaethau'n ymwneud â De Cymru Newydd yn Awstralia; neu'r cyfenw Welsh. O ganlyniad i hyn, addaswyd y strategaeth chwilio eto i ddod o hyd i adolygiadau systematig wedi'u seilio ar dystiolaeth dda.

Ar gyfer yr adolygiad hwn o gronfeydd data, cyfyngwyd y chwilio i'r cyfnod 2010-2016, er mwyn gorgyffwrdd â chwiliad y gwerthusiad blaenorol, a dod o hyd i weithgarwch yn y degawd 2010-2020.

Y termau chwilio a ddefnyddiwyd oedd: 'Wales, Welsh-Government, alcohol, substance-use, substance-misuse, illicit-drugs, illegal-drugs, heroin, cocaine, cannabis, tobacco, NPS, overdose, harm/s, injecting, risk, ethanol, mental health, children, community/communities, safety, blood-borne viruses, drug-education, health-improvement, drug-sentencing, drug-crime, drug-prisoners'. Lle gwelwyd bod y canlyniadau o ansawdd gwael ym mhob achos, symleiddiwyd y chwiliad i gynnwys y termau canlynol er mwyn dod o hyd i astudiaethau am Gymru'n unig: 'Wales+ Welsh+ substance +misuse+

strategy+ policy'. Roedd y canlyniadau a gafwyd wedyn hefyd yn amhenodol. Ailchwiliwyd wedyn heb gynnwys 'Wales' neu 'Welsh'.

Ychwanegwyd at y broses wedyn drwy ddefnyddio dull mwy newyddiadurol drwy un ai chwilio am dermau penodol mewn ffynonellau academiaidd ac ar y rhyngrwyd a/neu ddefnyddio deunydd yr oedd y tîm yn gwybod amdano eisoes o ganlyniad i weithgarwch perthnasol yn y gorffennol.

Yn fyr, gellir dweud bod yr elfen chwilio am lenyddiaeth yn y broses caffael data a thystiolaeth yn un gynhwysfawr neu strwythuredig ond nid yn un systematig. Mae hyn yn gyson â methodoleg gyffredinol yr adolygiad a gomisiynwyd a'r cyfyngiadau a oedd arno oherwydd ei faint.

6. Atodiad G – Bylchau mewn Data

Mae'r dull dadansoddi cyfraniad yn galw am roi prawf ar fodelau rhesymeg ar sail data, ac am dynnu sylw at unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd ar gael. Rydym yn awgrymu mai'r prif feysydd canlynol yw'r rhai lle'r oedd yn anodd dod o hyd i dystiolaeth gadarn.

6.1 Ymchwil oddi mewn i Gymru sy'n ymddangos mewn cyfnodolion rhyngwladol ar 'ddefnyddio sylweddau'

Rydym wedi nodi yn **Atodiad F** mai prin iawn oedd y dystiolaeth o hyn yn ein chwiliad systematig am ddata cysylltiedig â threialon. Enghraifft arall o hyn oedd bod y chwiliad am y term 'Wales' yn yr holl grynodbau o erthyglau yn Addiction Journal rhwng 2007 a 2017 wedi dod o hyd i 33 o erthyglau perthnasol; roedd 17 yn cyfeirio at Dde Cymru Newydd yn Awstralia, 14 yn ymwneud ag ymchwil a setiau data ehangach yn y DU a dim ond 2 a oedd yn ymwneud yn benodol â Chymru. Roedd y ddau hyn yn ymwneud ag economi'r nos a rhoi'r gorau i ysmygu yn hytrach na'r boblogaeth sy'n ceisio triniaeth am ddefnydd niweidiol o sylweddau sy'n destun i'r Strategaeth. Er bod nifer o ffyrdd i sicrhau bod ymchwil yn cael effaith a bod modd dadlau bod ymarferwyr prysur yn ei chael yn anodd cadw'n wastad â'r deunydd a gyhoeddir mewn cyfnodolion academiaidd, mae'n ymddangos yn bwysig bod rhan helaeth o'r ymchwil i driniaethau yng Nghymru yn cael ei dilysu hefyd drwy'r broses adolygu gan gymheiriaid sy'n gysylltiedig â chyhoeddiadau o'r fath. Mae hyn yn awgrymu bod angen mwy o waith gan y rheini yng Nghymru sy'n gyfrifol am gefnogi'r agenda ar ymchwil i hybu'r gweithgarwch hwn.

6.2 Data am ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau ar gyfer gweithgarwch atal

Nodwyd y diffyg darpariaeth ar gyfer mesur canlyniadau yn y Strategaeth yng ngwerthusiad Bennet et al (2013)³⁴ a chan Roberts (2016).³⁵

Roedd hyn yn brin iawn yn achos prosiectau cysylltiedig ag ysgolion yng Nghymru. Mae llawer o'r setiau data ac adroddiadau gwerthuso yn darparu data am y profiad o gymryd rhan mewn gweithgareddau neu ddata ar ddiwedd ymyriadau, yn hytrach na data sy'n dangos effaith ar ymddygiad defnyddio wedyn. Mae'n hollbwysig bod monitro a gwerthuso o'r fath yn cynnwys data dilynol hirdymor er mwyn gallu canfod unrhyw newidiadau mewn patrymau defnydd yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi nodi yn **Atodiad F**, yn enwedig mewn perthynas â Foxcroft a Tsertsvadze (2012)³⁶, fod Cochrane yn adolygu rhywfaint o'r dystiolaeth amwys ac amhendant ar gyfer y dulliau hyn. Mae Champion et al (2013)³⁷ a Midford (2010)³⁸ yn tynnu sylw at gyfyngiadau'r dulliau hynny sy'n ymwneud â dylanwad cymdeithasol yn y boblogaeth gyfan o bobl ifanc, gan awgrymu bod eu graddau o lwyddiant yn amrywio. Mae'r astudiaethau hyn yn awgrymu y byddai'n fwy buddiol ymgymryd â gweithgareddau wedi'u targedu a gweithgareddau i leihau niwed, yn cynnwys dulliau wedi'u seilio ar gyfrifiaduron neu'r rhyngwrdd.

³⁴ Bennett, T. et al. (2013) Evaluation of the Implementation of the Substance Misuse Strategy for Wales. Welsh Government. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/130610-evaluation-implementation-substance-misuse-strategy-en.pdf>.

³⁵ Roberts, H. (2016) Camddefnyddio meddyginiaethau a geir ar bresgripsiwn a dros y cownter. Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. <http://www.assembly.wales/research%20documents/16-039%2016-039%20-%20addiction%20to%20over%20the%20counter%20prescriptions/16-039-web-welsh.pdf>

³⁶ Foxcroft, D. R. a Tsertsvadze, A. (2012), Cochrane Review: Universal school-based prevention programs for alcohol misuse in young people. *Evidenced. -Based Child Health*, 7: 450–575.

³⁷ Champion K, E, Newton N,C, Barrett E, L, a Teesson M. (2013) A systematic review of school-based alcohol and other drug prevention programs facilitated by computers or the Internet. *Drug Alcohol Review* 32:115-123

³⁸ Midford, R. (2010), Drug prevention programmes for young people: where have we been and where should we be going? *Addiction*, 105: 1688–1695.

6.3 Data am ganlyniadau ar gyfer unigolion yn hytrach nag asiantaethau

Rydym eisoes wedi canmol y cynnydd ar gynhyrchu data cysylltiedig ag allbynnau a gweithgareddau asiantaethau. Mae mabwysiadu'r system Proffil Canlyniadau Triniaeth a data eraill am ganlyniadau yn gam ychwanegol i'r cyfeiriad iawn. Rydym yn croesawu newidiadau ychwanegol yng Nghronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau sy'n darparu ar gyfer cofnodi llwybrau unigol (ar sail dulliau o adnabod defnyddwyr unigol unigryw) drwy ymyriadau trin lluosog, gan nifer o ddarparwyr. Er hynny, nid oes dim eto sy'n cyfateb i'r llwybrau polisi a strategaeth hirdymor diweddaraf, sy'n rhan o'r drafodaeth sy'n datblygu, sydd wedi'i hadlewyrchu yn y rhifyn arbennig diweddar (2016) (7:3) o Canadian Journal of Addiction.³⁹

Mae astudiaethau o effeithiolrwydd y canlyniadau i driniaeth, mor bell yn ôl â'r astudiaeth wreiddiol o dan y Drugs Abuse Reporting Program (DARP)⁴⁰ yn UDA ym 1969, a'r Treatment Outcome Prospective Study a Drug Abuse Treatment Outcomes Studies a'i dilynodd, yn dangos yn glir bod triniaeth (ymyriadau dwys a chyson) yn gwneud gwahaniaeth. Rydym yn ymddiddori yma yn effeithiolrwydd y driniaeth neu weithgarwch gan asiantaeth ar sail mesurau allweddol sy'n ymwneud â defnyddio sylweddau (a throseddu). Ni ddylai'r prawf o effeithiolrwydd y canlyniadau hyn fod yn syndod – mae hyn wedi'i brofi eisoes drwy ymchwil adolygu gan gymheiriaid a threialon a arweiniodd at lunio triniaeth o'r fath, a dyma holl ddiben ymarfer seiliedig ar dystiolaeth. Yn wir, mae Franey ac Ashton (2002)⁴¹ yn rhoi crynodeb pwrpasol o'r hyn y gwyddom ei fod yn gweithio ac mae Orford (2008)⁴² wedi dangos cwrmpas a chyfyngiadau'r modelau hyn. Yn syml, rydym yn gwybod bod triniaeth yn gweithio.

Felly gellir dadlau bod y defnydd presennol o fesurau o ganlyniadau yn ymwneud yn fwy bellach ag atebolrwydd a monitro yn hytrach na chyfrannu at ddeall beth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol hirdymor (canlyniad) ym

³⁹ <http://www.csam-smca.org/canadian-journal-of-addiction/>

⁴⁰ Simpson, D. D. a Sells, S. B. (goln.). (1990). Opioid addiction and treatment: A 12-year follow-up. Malabar, FL: Krieger

⁴¹ Franey, C ac Aston, M. (2002) The grand design lessons from DATOS. Findings Issue 7. <http://www.datos.org/DATOS-FINDINGS.pdf>

⁴² Orford, J. (2008) (op cit)

mywydau unigolion. Er bod y mesurau yn y system Proffil Canlyniadau Triniaeth yn disgrifio rhai gweithrediadau iechyd a chymdeithasol, maent yn parhau i'w dehongli ar sail yr hen ddiffiniadau cyfyng o driniaeth yn hytrach na chynnwys yr holl agweddau sy'n bwysig i'r unigolyn. Ar ben hynny, maent yn dangos gwelliannau mewn gweithrediadau'n unig, heb edrych ar y rhesymau amdanynt, gan gymryd, felly, fod cydberthyniad â'r driniaeth, hyd yn oed os ydynt wedi'u hachosi gan ddigwyddiad bywyd arall. Yn wir, ni chafwyd unrhyw ymchwil eto dan arweiniad cyfranogwyr i ganfod beth mae defnyddwyr sylweddau yn credu yw canlyniadau ymadfer ystyrlon hirdymor a beth yw'r ffordd orau i fesur y rhain.

Mewn gwirionedd, dim ond dros y tymor hir ac wedi i'r driniaeth ddod i ben y gellir mesur canlyniadau parhaus o ran ymadfer a ffordd o fyw. Felly rydym yn awgrymu bod angen eu mesur ar ôl deuddeg mis ar y cynharaf, os nad ar ôl dwy neu bum mlynedd (yn wir, roedd DARP yn eu mesur ar ôl 12 mlynedd) a bod angen mesur canlyniadau sy'n ymwneud â newidiadau parhaus yn ffordd o fyw unigolion yn ogystal â'r rheini ar gyfer mesur effeithiolrwydd asiantaethau. Felly dylid cynnwys data dilynol mwy cyffredinol, mewn ffordd sy'n fwy tebyg i ddull NTORS. Gan amlaf, mae canllawiau cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio prosesau fel y system Proffil Canlyniadau Triniaeth ar ddechrau triniaeth, wrth ei hadolygu ac wrth ei chwblhau, ond cynghorol yn hytrach na mandadol yw unrhyw awgrymiadau am eu defnyddio wedyn.

Hanfod y ddadl hon felly, a'r hyn sydd ymhlyg wrth fabwysiadu'r dull dadansoddi cyfraniad, yw mai po amlaf y defnyddiwn y canlyniadau ymadfer (adfer synhwyrâu, er enghraifft) neu lesiant (teimlo'ch bod yn cael eich parchu fel aelod o gymdeithas, er enghraifft), mwyaf anodd fydd dangos y cydberthyniad rhyngddynt ac unrhyw weithgarwch ymyrryd ar ddefnyddio sylweddau neu ganfod y cyfraniad at hyn gan ddiwylliant neu newid economaidd, er enghraifft (a/neu bolisi llywodraeth arall). Er gwaethaf y cyfyngiad amlwg hwn, mae'n ymddangos yn bwysig bod camau'n cael eu cymryd i gasglu set fwy manwl a chynhwysfawr o ddata hydredol a fydd yn edrych ar ffordd o fyw'r unigolyn dros gyfnod hirach yn ogystal â dangos

effeithiolrwydd ymyriadau, a gofyn i ddefnyddwyr sylweddau beth sydd wedi gwneud gwahaniaeth yn eu barn nhw.

6.4 Bylchau posibl eraill

Mae'r tri bwlch uchod yn ymwneud â'r ddau faes allweddol, sef lleihau niwed a thriniaeth, lle mae data sylweddol ar gael gan mwyaf am weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau. Mwy anodd o lawer, mewn adolygiad sy'n ymdrin yn benodol â chamddefnyddio sylweddau, yw cynnig sylwadau cynhwysfawr am fesurau o ganlyniadau ehangach sy'n ymwneud â ffactorau iechyd, economaidd a chymdeithasol.

Yn y cyd-destun hwn, nid yw'r her o bennu mesurau effeithiol o ganlyniadau ar gyfer llesiant y boblogaeth gyfan yn rhywbeth ar gyfer llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn unig. Mae hyn yn awgrymu bod angen datblygu offer newydd ar gyfer mesur data hydredol yn hytrach na llenwi bylchau yn y dulliau casglu data sydd ar gael ar hyn o bryd.

7. Atodiad H – Trafodaeth Academiaidd ar Ddylanwadau Polisi

Fel y nodwyd yn **adran 8.4** o'r prif adroddiad, credir bod nifer mawr o ddylanwadau allanol sy'n effeithio ar ymatebion polisi. Nodwyd hefyd fod dadansoddiad cynhwysfawr o'r dylanwadau y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn, a rhoddwyd enghreifftiau o hyn. Mae nifer o'r ystyriaethau hyn wedi bod yn destun trafodaeth academiaidd hefyd, ac mae'r rhestr sy'n dilyn yn dangos rhywfaint o'r drafodaeth honno:

- Alcohol and Public Policy Group. (2010) Alcohol: No Ordinary Commodity – a summary of the second edition, *Addiction* 105(5): 769-779.
- Babor T, F a Robaina K. (2103) Public health, academic medicine, and the alcohol industry's corporate social responsibility activities. *American Journal of Public Health*. 103(2):206-214.
- Bakke O, ac Endal D. (2010) Vested interests in addiction research and policy alcohol policies out of context: Drinks industry supplanting government role in alcohol policies in sub-Saharan Africa. *Addiction*. 105(1):22-28.
- Jernigan D, H. (2012) Global alcohol producers, science, and policy: The case of the international center for alcohol policies. *American Journal of Public Health*. 102(1):80-89.
- Hawkins B, Holden C, a McCambridge J. (2012) Alcohol industry influence on UK alcohol policy: A new research agenda for public health. *Critical Public Health*. 22(3):297-305.
- Hawkins B, a Holden C. (2013) Framing the alcohol policy debate: Industry actors and the regulation of the UK beverage alcohol market. *Critical Policy Studies*. 7(1):53-71.
- McCambridge J, Hawkins B, a Holden C. (2014) Vested interests in addiction research and policy: The challenge corporate lobbying poses to reducing society's alcohol problems: Insights from UK evidence on minimum unit pricing. *Addiction*. 109(2):199-205.
- Stenius K, a Babor T, F. (2010) The alcohol industry and public interest science. *Addiction*. 105(2):191-198.